# Y Dinesydd

Chwefror Rhif 364 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog

## Pennaeth Newydd Bro Edern

Ym mis Ionawr penodwyd Iwan Pritchard yn Bennaeth ar Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern. Estynnwn ein llongyfarchiadau iddo ynghyd â chroeso cynnes i'n plith.

Brodor o Roshirwaun ar Benrhyn Llŷn yw Mr Pritchard ond roedd yn ymweld yn gyson ag aelodau o'r teulu yn y 'Sowth' pan oedd yn blentyn. "Feddyliais i erioed," meddai, "y byddwn i, ryw ddydd, yn rhan o'r doreth o Gymry sy'n symud i gyfeiriad y de ddwyrain ac sy'n rhan, er mor fychan yw honno, o'r adfywiad mewn hunaniaeth Gymraeg sydd angen ei ddathlu drwy Forgannwg a Gwent."



O Ysgol Botwnnog aeth i'r Brifysgol ym Mangor a graddio yn y Gymraeg a Hanes Cymru. I Aberystwyth wedyn i ddilyn cwrs ymarfer dysgu, ac yna treulio dwy flynedd ym mwynder Maldwyn yn athro hanes yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin cyn cael ei benodi yn Bennaeth Hanes yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yng Nghwm Cynon. Y cam mawr nesaf oedd cael ei benodi'n Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, ger Maesteg, pan agorodd honno ym Medi 2008.

*(Parhad ar dudalen 2)*

### Agoriad Swyddogol Ysgol Pen-y-Pîl



*Y stori'n llawn ar dudalen 8*

## *Pa mor Gymreig yw Caerdydd?*

Ydych chi wedi elwa o addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd? Ydych chi'n meddwl bod diwylliant cyfrwng Cymraeg Caerdydd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf? Sut mae'n cymharu â rhannau eraill o Gymru? Wnaethoch chi gymryd rhan yn yr ymgyrchoedd iaith yn ystod y 1950au a'r 60au? Mae amgueddfa Stori Caerdydd yn edrych am straeon, atgofion a barn ynghylch siarad Cymraeg yng Nghaerdydd, heddiw a ddoe.



Mae Stori Caerdydd yn amgueddfa newydd sy'n dilyn hanes y ddinas o'r dref farchnad fechan o'r 1300au i brifddinas fywiog heddiw, a adroddir gan hanes y rhai a'i crëodd – ei phobl. Mae'r amgueddfa wedi'i lleoli yn adeilad prydferth a hanesyddol yr Hen Lyfrgell, yng nghanol y ddinas.

Mae'r tîm wrthi nawr yn datblygu trydedd oriel barhaol i archwilio'r pethau sy'n rhoi cymeriad a hunaniaeth unigryw i'r ddinas. Disgwylir i'r oriel newydd ryngweithiol hon agor yn 2013 a bydd yn canolbwyntio ar hanes chwaraeon, cymuned a diwylliant y ddinas.

Mae nifer o wrthrychau'r amgueddfa, gan gynnwys yr hen jiwcbocs hwn o Glwb Ifor Bach, wedi cael eu rhoi gan aelodau'r cyhoedd neu fusnesau lleol Caerdydd. Gallwch weld y jiwcbocs yn oriel *Caerdydd mewn Cyd-destun*, ynghyd â channoedd o wrthrychau eraill sy'n dangos hanes y ddinas. Mae'r amgueddfa am ddim, ac ar agor o 10yb tan 5yp o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac 11yb tan 4yp ar ddydd Sul.

Os hoffech chi ein helpu i gael yr amgueddfa i adrodd stori perthynas Caerdydd gyda'r iaith Gymraeg, cysylltwch â Rachel Carney ar 029 2078 8334 neu rcarney@caerdydd.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am yr amgueddfa, ewch i'n gwefan yn www.storicaerdydd.com

**Sian Parry-Jones**

*Rheolwr Gwasanaethau Twristiaeth, Cyngor Caerdydd*

## Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
Bryan James

Golygydd y rhifyn nesaf:
Gwilym ac Eirian Dafydd

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn 25 Chwefror i:
Hengoed, 4 Coryton Rise,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 7EJ
Ffôn: 029 20 657 108
eirian.dafydd@ntlworld.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**,
54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**,
12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**,
6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**,
55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**,
9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**,
12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**,
38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**VEG VENDOR**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Pennaeth Newydd Bro Edern *(Parhad)*

"Mae cael bod yn rhan o sefydlu ysgol newydd, a gweld yr hedyn bychan yn egino a blaguro," meddai Mr Pritchard, "yn rhywbeth arbennig iawn sy'n clymu staff, disgyblion a rhieni at ei gilydd wrth i bawb weithio tuag at lwyddiant y sefydliad a dyfodol disglair i'r plant. Braint oedd cael gweithio yn Rhydywaun a Llangynwyd wrth iddynt sefydlu, a braint yn sicr fydd arwain y datblygiadau wrth i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern sefydlu, gwreiddio a datblygu ei hunaniaeth unigryw ei hun. Er mwyn llwyddo byddwn yn ddibynnol iawn ar gydweithrediad nifer o sefydliadau eraill ar y cychwyn, gan gynnwys Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf gan mai yno y bydd ein cartref am y flwyddyn gyntaf, ond nid mewn dau gaban yn unig, yn wahanol i'r awgrym diweddar yn un o'n papurau rhanbarthol."

"Fe fyddwn yn ddibynnol iawn hefyd ar wirfoddolwyr, ac yn hynny o beth gofynnwn i unrhyw un o ddarllenwyr y Dinesydd sy'n fodlon cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i gysylltu â ni, boed y cymorth hwnnw'n un rheoliad neu'n achlysurol."

Gellir cysylltu â'r ysgol drwy e-bost: ysgolbroedern@aol.com.

Dymunwn bob llwyddiant i chi, Mr Pritchard, ac i bawb fydd yn gysylltiedig â'r ysgol newydd.

# Cymraeg yn y Gweithle: Clod i CBAC

Dyma'r ail flwyddyn i CBAC gynnig gwersi Cymraeg yn y gweithle ac mae yna griw hwyliog sydd wrth eu bodd yn dysgu'r iaith. Cyn gwyliau'r Nadolig trefnwyd seremoni i gydnabod eu hymroddiad a chyflwynwyd tystysgrifau gyda'r credydau a enillwyd dros y flwyddyn gyntaf gan Derec Stockley, Cyfarwyddwr Arholiadau ac Asesu CBAC. Llongyfarchiadau iddyn nhw!



Dyma lun ohonynt, o'r chwith: Sarah Price, Allison Candy, Kwai Wong, Violaine Grollier, Claire Williams, Carla Zayas, Stephen Fairhurst a Derec Stockley.

Mae CBAC yn flaengar o ran dysgu Cymraeg yn y gweithle ac, yn 2011, enillodd wobr Buddsoddwyr mewn Hyfforddiant Iaith Gymraeg. Cyflwynwyd y wobr i CBAC mewn seremoni a gynhaliwyd gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Canmolwyd y sefydliad am gynllunio'n strategol i redeg cyrsiau dwys i staff dros gyfnod o ddwy flynedd. Dywedodd Rachel Heath-Davies, Cyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg: "Mae'r sefydliad (CBAC) wedi cynllunio hyfforddiant iaith mewn ffordd strategol iawn, gan sicrhau bod cyrsiau dwys ddwywaith yr wythnos yn y gwaith, ac mae'r cyrsiau gloywi yn rhai arbennig. Mae'r buddsoddiad wedi bod yn enfawr yn y Gymraeg."

# NEWYDDION...

## Croeso
Croeso i Gaerdydd i Shirley Williams, gynt o Groesor, Sir Feirionnydd. Mae hi wedi ymgartrefu yn Rhiwbeina.

Croeso cynnes Hefyd i ymwelwyr arbennig o'r Wladfa. Mae Rebeca Henry a Juan Carlos Davies o'r Gaiman newydd ddod i Gaerdydd am chwe wythnos i ddilyn cyrsiau Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Rhoddion Hael i Gronfa'r Dinesydd
Cynhaliodd Côr Aelwyd Hamdden gyngerdd arbennig yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, nos Sul y 15fed o Ionawr. Mwynhaodd pawb y rhaglen amrywiol dan arweiniad Eilonwy Jones, a chyfraniad yr unawdydd, Trystan Francis, Rhiwbeina. Gwnaed casgliad ymadawol i'w rannu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a'r Dinesydd.

Derbyniwyd rhoddion hael gan Salem a'r Tabernacl, hefyd, a dymuna'r Dinesydd ddiolch yn fawr iawn i'r côr ac i'r capeli am eu cymwynas werthfawr.

## Dal Dy Dafod
Nos Wener, 17 Chwefror, yn y Duke of Clarence, Clive Road, fe gewch gyfle i brofi cyffro arbennig yng nghwmni Twm Morys, Mei Mac, Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovegreen. Hanner can mlynedd yn ôl i'r wythnos darlledodd Saunders Lewis ei ddarlith 'Tynged yr Iaith'. Bydd y sioe hon, a welwyd gyntaf yn Maes C, yn ail-fyw gormes ac ymgyrchoedd y gorffennol drwy gerddi a chaneuon, ac yn trafod yr her sy'n wynebu siaradwyr y Gymraeg heddiw. [Dechrau am 8.00 o'r gloch. Tocynnau (£6) ar gael yn Caban.]

## Byddwch yn rhan o'r Gemau!
Mae Gemau Llundain 2012 yn dod i Gaerdydd... a gallwch CHI fod yn rhan ohonynt drwy wirfoddoli gyda Rhaglen Llysgenhadon Cyngor Caerdydd.

Mae Caerdydd wedi cael ei dewis fel lleoliad pêl-droed Olympaidd a Gwersyll Hyfforddiant Cyn y Gemau ar gyfer nifer o dimau Olympaidd a Pharalympaidd.

Byddwn yn croesawu miloedd o wylwyr ac athletwyr o bedwar ban byd i Gaerdydd a bydd y llysgenhadon yn chwarae rôl allweddol i sicrhau bod eu profiad o'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, a Chymru, y gorau posib.

Mae cymryd rhan yn hawdd – y cyfan sydd angen ei wneud yw cofresru ar y wefan www.sport-cardiff-vsb.com a chwblhau'r ffurflen gais ar lein.

## Dau Fudiad yn Dathlu
Eleni mae Cymdeithas yr Iaith yn dathlu ei hanner can mlwyddiant, a'r Urdd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed. Cyflawnwyd llawer iawn dros yr iaith gan y ddau fudiad hyn, ac mae eu dylanwad yn para o hyd.

Bu Canolfan yr Urdd yn Heol Conwy, Treganna, yn fwrlwm o weithgareddau yn enw'r mudiad am flynyddoedd lawer cyn symud i Ganolfan y Mileniwm yn y Bae.

Llongyfarchiadau, diolch, a phob llwyddiant i'r ddau fudiad i'r dyfodol.

[Gweler *Dal Dy Dafod* uchod.]

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina
Roedd ein Noson Gerddorol ar 16 Ionawr yn noson i'w chofio! Côr Bechgyn Hŷn Glantaf oedd y sêr, gyda'u harweinydd, Delyth Medi. Fe swynwyd y gynulleidfa niferus yn llwyr gan eu dawn gerddorol ryfeddol.

## Clwb Gwawr Llygaid y Dydd
Gorffen 2011 mewn steil, a dechrau positif i 2012!

Ym mis Rhagfyr cawsom sesiwn gyda Dafydd Rhys o salon Ken Picton yn y Bae ar wahanol steil gwallt ar gyfer tymor y partïon. Yna, ym mis Ionawr eleni daeth un o'n cyn-aelodau i lawr o Ynys Môn, Eleri Bevan, i roi sesiwn ar Bŵer y Positif. Roedd yn egluro amrywiol bethau i wella'n ffordd o fyw o ddydd i dydd – bod newid rhwybeth bach yn gallu rhoi positifrwydd i berson i fod yn hapusach ac yn llwyddiannus, a bod meddwl cadarnhaol iach yn rhagweld hapusrwydd, llawenydd, iechyd a chanlyniad llwyddiannus ym mhob sefyllfa. Ym mis Chwefror cafwyd noson hwyliog wrth wneud Zumba.

Edrychwn ymlaen at weddill y tymor gan ddechrau ym mis Mawrth gyda chinio Gŵyl Ddewi ac yna ffotomarthon mis Ebrill. Cawn gyfle i flasu hoff fwyd yr aelodau ym mis Mai a mynd i chware golff ym mis Mehefin. Mae croeso cynnes i ferched ymuno gyda ni, a does dim rhaid bod yn aelod. Rydym fel arfer yn cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Cymru Caerdydd (Clwb Bowls Penhill). Am fanylion pellach ewch i dudalen Facebook Clwb Gwawr Caerdydd neu gysylltu a clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

***Elin Angharad***

## *Llongyfarchiadau*

...i Mared Swain ar ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cymraeg Theatr Sherman Cymru. Daw o Lantrisant yn wreiddiol a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llanhari. Bydd y Sherman yn ailagor ar ei newydd wedd yn Chwefror.

...i Ynyr a Lisa Merfyn, Radur, ar enedigaeth Cari Elizabeth, eu cyntaf anedig, ar 4 Rhagfyr.

...i Meilira Frances Howells, Ystum Taf, ar enedigaeth Cian Hedd yn Ysbyty'r Brifysgol ar 7 Rhagfyr.

...i Ben a Rhiannon Armstrong, y Mynydd Bychan, ar enedigaeth Gwion ar 1 Tachwedd yn Ysbyty'r Brifysgol. Brawd bach i Dafydd.

...i Siôn Pierce Lewis a Catrin Wyn Lewis ar enedigaeth eu mab, Evan Rhys, ar 16 Rhagfyr. Ŵyr arall i Heddwyn a Margaret Jones, Pontiets, a Richard a Bethan Lewis, Llandaf. Priododd Catrin a Siôn yn Tyn-y-cwm, Pontiets, y llynedd ac maen nhw bellach wedi ymgartrefu ym Mynyddygarreg ger Cydweli.

...i Trystan Francis, Rhiwbeina, ar ei ddyweddiad â Siân Hopkins, Aaberpennar, ym mis Rhagfyr.

~ ~ ~ ~ ~

Llongyfarchiadau i Menna Tudwal Jones, merch y Parchg Glyn Tudwal a Mrs Delyth Jones, Llwyn Bedw, ar gael ei phenodi'n Uwch-Ddarlithydd mewn Adfywiad Trefol a Thwristiaeth ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl. Dechreuodd Menna yn ei swydd newydd ar ddechrau'r flwyddyn.

~ ~ ~ ~ ~

Llongyfarchiadau i Becky Davies, Llandaf, ar ei phenodiad yn Uwch Ddarlithydd Celf ym Mhrifysgol Cymru Casnewydd. Fe fydd hi'n parhau i weithio ar waith comisiwn fel Cynllunydd Theatr ac Artist. Ysgol Garth Olwg, Ysgol Rhydfelen, Coleg yr Iwerydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, oedd y llwybr addysgol cyn gweithio ar ei liwt ei hun fel cynllunydd ac artist.

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**

**029 20689 888**

## Diwrnod Santes Dwynwen, 2012

Dosbarthwyd dros 1,000 o gardiau'n rhad ac ddim i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen eleni – bu staff y Fenter yn ymweld ag Ysgol Glantaf a Phlasmawr, Asda yn Lecwydd, Ann Summers yn y dre a Neuadd y Sir yn y Bae! Roedd yr ymateb gan bawb yn wych, a phawb yn barod iawn i glywed am hanes Dwynwen! Llongyfarchiadau hefyd i Geoff Smith, a dderbyniodd ein Dwynwen-o-Gram! Enwebwyd gan ei wraig, Sian, a bu i'r ddau briodi ar Ddiwrnod Santes Dwynwen nôl yn 2003 yn Seland Newydd! Mae'r lluniau i gyd i'w gweld ar ein tudalen Facebook – ewch i weld a ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi cael llun gyda Dwynwen!!

## Cynllun Gofal Hanner Tymor, Chwefror 13-17, 2012

Bydd 2 Gynllun Gofal yn digwydd yn ystod hanner tymor mis Chwefror yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd. Bydd y ddau gynllun ar agor bob dydd yn ystod hanner tymor rhwng 8.30am a 5.30pm. Yn ogystal â'r cyfleoedd chwarae arferol, bydd gweithdai celf, karate, coginio, trip i Techniquest a pharti gwallt gwirion. Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch marirhys@mentercaerdydd.org. Rhaid cofrestru o flaen llaw - mae modd gwneud hynny ar ein gwefan.

## Miri Meithrin

Bydd Miri Meithrin yn ôl yn ystod hanner tymor – dydd Mawrth, Chwefror 14 yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn rhwng 2pm a 3.30pm. Mae'r sesiynau yma i blant meithrin a babis yn boblogaidd iawn a chyfle gwych i gymdeithasu a chwarae mewn awyrgylch hapus a hwyliog. Bydd cyfle yn y sesiwn ym mis Chwefror i ganu gyda Hei-di-Ho ac ysgwyd llaw gyda Sam Tân a Bert. Bydd gweithdai celf a chrefft, castell gwynt a lluniaeth ysgafn a llawer mwy... Croeso i blant 0-4 mlwydd oed.

Nid oes angen tocynnau o flaen llaw - £3 y plentyn/babi wrth y drws. (Yn rhad ac am ddim i'r rhieni.)

## Gweithdai Ieuenctid Hanner Tymor Chwefror

Bydd amserlen amrywiol o weithdai a sesiynau ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn digwydd yn ystod hanner tymor mis Chwefror – Padlfyrddio, Sgio, Rafftio, Animeiddio a Choginio. Am fwy o wybodaeth am amseroedd, prisiau, a lleoliadau, ewch i wefan y Fenter a chliciwch ar y dudalen Ieuenctid neu ebostiwch angharad@mentercaerdydd.org

## Gweithdai Cynradd Hanner Tymor Chwefror

Byddwn yn cynnig y gweithdai a'r gweithgareddau canlynol i blant cynradd yn ystod hanner tymor Chwefror...

Blwyddyn 1, 2 a 3 – Bore Chwaraeon, Dawnsio Stryd, Rygbi a Chelf
Blwyddyn 4, 5 a 6 – Coginio, Rafftio Dŵr Gwyn a Hwyl Dŵr, Dawnsio Stryd, Dringo, a Chelf

Am fwy o wybodaeth am amseroedd, prisiau, a lleoliadau, ewch i wefan y Fenter a chliciwch ar y dudalen Gweithgareddau Gwyliau neu ebostiwch aweldavies@mentercaerdydd.org.

## Trafod Hanes yng nghwmni Dr John Davies

Bydd Menter Caerdydd yn cynnal cwrs unigryw yng nghwmni'r hanesydd Dr John Davies, ddydd Sadwrn, Chwefror 18 yng Nghanolfan Chapter, Treganna. 'Cydwybod cymdeithasol yng Nghymru rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd' fydd testun y ddarlith ac mae croeso cynnes i bawb. Cynhelir y sesiwn rhwng 1.30pm a 4pm a darperir lluniaeth ysgafn. £8 yw cost y sesiwn, ac mae angen cofrestru o flaen llaw. Am ragor o fanylion ac i gofrestru, ewch i mentercardydd.org neu ebostiwch aweldavies@mentercaerdydd.org

## Bwrlwm

Bydd sesiynau chwarae Bwrlwm yn digwydd mewn 4 ardal yn ystod hanner tymor – Sblot (Ysgol Glan Morfa), Llanedeyrn (Ysgol y Berllan Deg), Caerau (Ysgol Nant Caerau) a'r Tyllgoed (Ysgol Coed y Gof). Yn ystod yr wythnos, bydd cyfleoedd i goginio, cymryd rhan mewn sesiynau Chwaraeon gyda'r Urdd, sesiynau celf a chrefft ac ail-gylchu a gweithdy cerdd. Bydd cyfle hefyd i fynd ar daith i Sŵ Bryste. Does dim angen cofrestru o flaen llaw ar gyfer y sesiynau, sy'n rhad ac am ddim. Am fwy o fanylion, cysyllwch â llinoswilliams@mentercaerdydd.org neu ewch i wefan y Fenter.

## Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch bod gan by Fenter gyfrifon Twitter, Facebook a You Tube, a rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd i glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal nos Sul, Chwefror 26 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar nos Sul olaf pob mis!

## Sblish Sblash Babis Dŵr

Mae'r sesiynau nofio i fabis bach a'u rhieni wedi bod yn boblogaidd dros ben cyn y Nadolig, felly rydym wedi trefnu dau gwrs newydd i ddechrau yn ystod mis Chwefror – un yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed ac un arall yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin yn Nhrelai. Am fwy o wybodaeth am weithgareddau teulu a meithrin y Fenter – ebostiwch marirhys@mentercaerdydd.org

## Penwythnos Teulu i Langrannog

Mae ambell i le ar ôl ar y penwythnos poblogaidd hwn ar gyfer teuluoedd yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog – dydd Gwener, Mawrth 30 – dydd Sul, Ebrill 1. Penwythnos llawn hwyl a sbri, gyda llu o weithgareddau yn cynnwys nofio, merlota, cwrs rhaffau, gwibgartio, sgio, trip i'r traeth, twmpath, cwis a llawer mwy. Am fanylion llawn neu i gofrestru ewch i wefan y Fenter – neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org



## Ffarwelio â Helen a chroesawu Nia

Pob hwyl a diolch yn fawr i Helen John, sydd wedi gadael y Fenter cyn y Nadolig – mae Helen wedi derbyn swydd llawn amser gyda Canolfan Gydol Oes Garth Olwg ym Mhentre'r Eglwys. Wrth i Helen adael, mae'n braf croesawu Nia Donnelly i weithio fel Swyddog Cyllid. Mae Nia wedi dechrau gyda ni yn y swyddfa ers dechrau'r flwyddyn. Yn wreiddiol o Lantrisant, mae Nia'n ymuno â ni ar ôl cyfnodau'n gweithio gyda Barcud Derwen yn yr Eglwys Newydd a Chynyrchiadau Dinamo.

## Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

Mae Menter Caerdydd yn ystyried trefnu gwasanaeth bysiau rheolaidd i redeg o Gaerdydd i Faes yr Eisteddfod yn Llandw fis Awst eleni. Y gobaith yw bydd y bysiau'n rhedeg o ddechrau'r bore tan yn hwyr yn y nos, gyda'r bws olaf yn gadael y Maes ar ôl diwedd y cyngerdd yn y Pafiliwn. Bydd tâl bychan yn cael ei godi am y gwasanaeth.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod galw am wasanaeth bysiau o Gaerdydd i'r Maes cyn mynd ati i drefnu'r amserlen, ac felly'n gofyn i unrhyw un fyddai'n awyddus i ddefnyddio'r bysys yn ystod wythnos yr Eisteddfod i gysylltu â ni er mwyn i ni weld pa mor boblogaidd fyddai gwasanaeth o'r fath.

Nid yw'ch ymateb yn eich ymrwymo i unrhyw beth ond, yn hytrach, yn ein helpu i asesu'r galw. Gallwch naill ai ymateb trwy gyfrif Twitter neu Facebook y Fenter, neu drwy anfon ebost at menter@caerdydd.org

# Colofn G.R.

Erbyn hyn mae Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bron wedi mynd yn angof a phawb rwan yn wynebu 2012 sy'n argoeli bod yn flwyddyn anodd i economi'r wlad heb sôn am y costau byw yn codi a swyddi llawer yn y fantol. Ond rhaid byw mewn gobaith, siwr o fod daw haul ar fryn eto a hynny yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesa.

Wrth edrych yn ôl cyn edrych ymlaen, siom y flwyddyn a aeth heibio oedd clywed am nifer o rieni Cymraeg tre Aberteifi yn gwrthwynebu troi'r ysgol gynradd yno yn ysgol Gymraeg go iawn.

Ond os siom a gafwyd yn nhre Aberteifi nid felly yn ninas Caerdydd pan ddaeth Awstralia i'r Stadiwm Genedlaethol i herio tîm rygbi Cymru ar 3 Rhagfyr. Er i ni golli'r gêm honno, llawenydd i filoedd oedd gweld y seren, Shane Williams, yn eiliadau olaf y gêm, yn sgorio cais gwefreiddiol ac yntau yn gwisgo crys coch Cymru am y tro olaf. Diolch Shane am godi ein calonnau a'n gobeithion yn y byd rygbi dros y blynyddoedd!

Wrth edrych ymlaen 'dan ni eisoes yn gwybod yr agorir y drydedd Ysgol Gyfun Gymraeg yng Nghaerdydd, Ysgol Gyfun Bro Edern, a hynny ym mis Medi eleni ar gampws Ysgol Gyfun Glantaf am flwyddyn cyn symud i safle Ysgol Gyfun Teilo Sant yn Llanedeyrn. Calonogol o safbwynt yr iaith ydy sylweddoli bod croesdoriad sylweddol o rieni'r ddinas a'r Fro yn cefnogi addysg drwy'r Gymraeg i'w plant bellach.

Ar hyn o bryd mae dau o bobl ifanc y Wladfa draw yng Nghaerdydd am chwe wythnos ac yn dilyn cyrsiau yn y Brifysgol. Daw'r ddau o'r Gaiman yn Nyffryn Camwy. Mae Siôn Dafis (Juan Carlos Davies) yn enedigol o'r Gaiman a theulu ei dad yn hannu o ardal Betws y Coed. Ganwyd Rebeca Henry yng Nghymru yn ardal Abertawe ond ar ôl marwolaeth annhymig ei thad dychwelodd ei mam, Laura, a hithau i fyw yn y Gaiman gan fod ei mam yn dod oddi yno yn wreiddiol. Mae Rebeca yn wyres i'r diweddar lenor a bardd Irma Hughes de Jones. Bu ei nain yn olygydd papur Y Drafod am flynyddoedd lawer. Croeso cynnes i'r ddau i'n plith.

Mae hi'n anodd credu bod bron dwy flynedd wedi pasio ers i'r Dinesydd ddechrau codi tâl am y papur. Argraffir ychydig dros 700 copi yn fisol ar hyn o bryd ond nid da lle gellir gwell a felly anogwn y darllenwyr presennol i geisio eu gorau glas i chwyddo'r cylchrediad drwy berswadio eraill o'n cydnabod ac ati i dderbyn y papur. Mae'n fargen am 80 ceiniog! Mae dros ugain mil o siaradwyr Cymraeg yn y ddinas a'r Fro a felly mae digon o waith yn ein haros i berswadio llawer mwy o'r boblogaeth i ddarllen papur bro hynaf Cymru. Ewch ati i genhadu!

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod y gangen mis Rhagfyr daeth Ann Mears atom i gynnal sesiwn ymarferol trefnu blodau. Nod y noson oedd i bob un ohonom greu trefniant blodau Nadoligaidd ei naws gyda channwyll yn ei ganol i addurno'r bwrdd bwyd. Diolch i baratoi manwl Ann a'i hamynedd di-ben-draw, llwyddodd pawb i wneud trefniant artistig y gallem ymfalchïo ynddo ac a fu'n harddu'n cartrefi dros yr Ŵyl.



*Merched y Wawr Caerdydd mewn gweithdy trefnu blodau dan arweiniad Ann Mears*

Ym mis Ionawr, daeth Heledd ap Gwynfor atom yn llawn bwrlwm ac asbri i sôn am Burkina Faso yng Ngorllewin Affrica. Dyma un o wledydd tlota'r byd, a bu Heledd yno yn ymweld â rhai o brosiectau Cymorth Cristnogol yr ydym yn cyfrannu atynt. Dangosodd ffilm fer inni a wnaeth tra'r oedd yno. Soniodd hefyd am ei chyfnod o ddwy flynedd yn gwneud V.S.O. yn China. Diddorol iawn oedd clywed am ei hymdrechion gyda'r iaith Mandarin a'r modd y bu'n ceisio addasu i arferion diwylliannol a ffordd o fyw hollol wahanol.

# Merched y Wawr Radur

Cynhaliwyd dau gyfarfod hynod ddiddorol ac addysgiadol i ddiweddu rhaglen 2011. Cawsom gipolwg ar gasgliad gwisgoedd a thecstiliau Amgueddfa Werin Sain Ffagan gan y curadur Elen Phillips. Gwelsom luniau o gasgliad o 200 o gwiltiau, sy'n elfen bwysig o'n diwylliant gweledol yng Nghymru. I'r rheiny sydd â diddordeb mewn cwiltio mae'r Amgueddfa yn cynnal sesiwn ar 3 Mawrth 2012 o 11yb i 12.30yp.

Blasu cacennau cwpan oedd yr arlwy o dan ddwylo medrus y cogydd ifanc o Bontyclun, Amy Stabler. Dysgom am y grefft o greu cacennau deniadol. Mae gan Amy wefan gweplyfr o'r enw Cwtch-up Cakes, a gellir archebu cacennau ganddi ar gyfer pob achlysur.

**Beth am archebu'r Dinesydd am y flwyddyn?**

Gyda dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mae cyfle eto i archebu'r Dinesydd am y flwyddyn.

*(Os ydych eisoes yn tanysgrifio trwy Archeb Banc, does dim angen adnewyddu.)*

Am £8 yn unig fe gewch gopi wedi ei ddosbarthu i ganolfan o'ch dewis chi, neu am £15 fe'i cewch drwy'r post.

***Gweler y ffurflen tanysgrifio yn y rhifyn hwn.***

Pris Y Dinesydd yn y siopau yw 80c. Mae 10 rhifyn y flwyddyn.

# Ôl-Lwybrau

## Eleri Rogers

Dydd Sadwrn. Cinio cynnar. Wedyn, y pedwar ohonom, fy rhieni, fy chwaer a minnau'n ymwthio i'r bocs matsys o gar Austin 7 (CNY508 – yr unig rif car i mi allu'i gofio erioed!) yn barod i gychwyn dros fynydd Caerffili ac i lawr am Gaerdydd. CAERDYDD, metropolis y cymoedd ymhell cyn iddi droi'n brifddinas.

Dau reswm dros adael Caerffili y diwrnod hwnnw. 'Nhad yn anelu am "y gêm" a ninnau'n tair yn anelu am siop Evan Roberts a deyrnasai ar gornel Rhodfa'r Brenin a Stryd y Frenhines.

Prynu gwisg ysgol newydd ar gyfer yr ysgol uwchradd, Ysgol Ramadeg y Merched Caerffili fel roedd hi bryd hynny, oedd y nod. Cofio'r cyffro o esgyn i lawr cyntaf y siop crand ac i adran y "Gwisgoedd Ysgol." Gym-slip nefi; blows werdd; tei gwyrdd a melyn; gwregys (girdle); sanau; blazer gwyrdd; cot gaberdîn nefi; y bathodynnau aur gyda thŵr cam y castell yn serennu arnynt – ac, wrth gwrs, y daps du, y fest a'r nicars gwyrdd tywyll hyllaf a fu, ar gyfer ymarfer corff. Gofalu wedyn bod y got a'r gymslip yn hwy na'r angen er mwyn ymestyn eu hoes tu hwnt i Form 1.

Ie, siop Roberts. Siop uchel ei pharch a'r unig siop a werthai wisgoedd ysgol i lawer o ysgolion y cwm yn ogystal â'r ddinas yn y pedwar degau.

Yn dynn ar sodlau Roberts roedd siopau fel Howells, Marments, Seccombes, Alders ac wrth gwrs David Morgan. Digon seisnigaidd a ffroenuchel oedd agwedd sawl un a weithiai yn y siopau hyn o glywed cwsmeriaid yn siarad Cymraeg – ac eithrio efallai David Morgan. Yn y siop hon, eto ar y llawr cyntaf, adeg Dydd Gŵyl Dewi cynhelid Ffair Grefftau Cymreig. Gallaf arogli'r blawd llif a'r lledr hyd heddiw wrth i ni gamu i ganol stondinau'r crefftwyr. Cofio'n arbennig am Mr David Jenkins Ewenni, y crochennydd, yn ei gap a'i fwstash trwchus yn plygu dros yr olwyn yn creu powlenni a jygiau bach perffaith o'r peli clai a safai'n rhes ar y silff o'i flaen. Dyn o ychydig eiriau oedd Mr Jenkins ond hyfryd oedd clywed tafodiaith bert y fro wrth iddo sgwrsio â fy mam a dwyn ambell driban i gof.

Tro i'r farchnad wedyn sydd heb newid dim, diolch byth, a chip cyflym ar yr hen lyfrgell gyferbyn cyn ei throi hi am adre. . . .

Ydyn, mae'r hen siopau a roddai eu stamp arbennig ar y ddinas wedi hen ddiflannu ynghŷd ag ambell adeilad fel y Cory Hall, y Dutch Café a'r Kardomah, a sawl sinema clyd fel yr Odeon a'r Capitol, lle bu cariadon yn cadw oed. I gyd wedi mynd. Ond, nid eithriad bellach yw clywed y Gymraeg ar ein strydoedd ac mae'r agwedd at yr iaith a'r genedl mewn siop a neuadd wedi newid yn syfrdanol yn ystod fy oes i. Eto'i gyd a oes pris i'w dalu am y fath newid? Ai ennill Caerdydd fydd colled di-droi'n-ôl hen gadarnleoedd y Gymraeg? Dim ond gofyn . . .

## *Cydymdeimlir â*

- theulu y diweddar Trevor W. Harris, y Barri, a fu farw ar 29 Tachwedd. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl, y Barri, ar 9 Rhagfyr ac yna yn Amlosgfa Bro Morgannwg.
- Dafydd a Maria Hampson-Jones, Llandaf, ar farwolaeth Rhiannon Singer, chwaer Dafydd, yn 72 oed ar 7 Rhagfyr. Cynhaliwyd ei hangladd yn La Rochelle, Ffrainc, ar 16 Rhagfyr.
- theulu y diweddar Morfydd Stone, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel yn Tŷ Penrhos, Caerffili, ar 12 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, ar 22 Rhagfyr ac yna ym mynwent Pantmawr, Rhiwbeina.
- theulu y diweddar Ifan Williams, Rhymni, a fu farw yn ei gartref ar 22 Rhagfyr yn 99 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Moreia, Rhymni, ar 3 Ionawr.
- theulu y diweddar Mair Davies a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 20 Rhagfyr, yn 88 oed. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 20 Ionawr.
- theulu y diweddar Beti Jenkins, y Mynydd Bychan, a fu farw yng Nghartre Nyrsio Tŷ Coch, Llanisien, ar 24 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 9 Ionawr.
- theulu y diweddar Athro Emeritws Prifysgol Cymru Edryd Jones, a fu farw ar 26 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 7 Ionawr.
- theulu y diweddar Eirlys Pritchard, Rhiwbeina, ond gynt o Ddefynnog, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 26 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Bethany, Llanisien Fach, Rhiwbeina, ar 10 Ionawr ac yna ym mynwent Amlosgfa'r Ddraenen.
- theulu y diweddar Heulwen Thomas, Llandaf, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 22 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa Margam, Port Talbot, ar 9 Ionawr.
- theulu y diweddar Edwina Lewis a fu farw yn Ysbyty Romsey, Swydd Hampshire, ar 17 Rhagfyr. Ar un adeg bu'n athrawes yn yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd a agorwyd yn Ysgol Parc Ninian yn 1949. Bu'r angladd yn Romsey ar 30 Rhagfyr.
- theulu y diweddar Norman Harris 65 oed o'r Eglwys Newydd, ond gynt o'r Rhondda, a fu farw yn sydyn yn ei gartre ar 7 Ionawr. Bu'r angladd yng Nghapel Bethlehem, Treorci, ar 24 Ionawr ac yn dilyn yn Amlosgfa Llwydcoed, Aberdâr.
- theulu y diweddar Stanley Owen Jones, 81 oed, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 5 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bro Morgannwg ar 19 Ionawr. Roedd Stanley yn arlunydd adnabyddus ac yn athro celf yn Ysgol Gyfun St Cyres, Penarth.
- theulu y diweddar Dr Ilid Anthony a fu farw yn 86 oed yn Ysbyty'r Brifysgol ar 19 Ionawr. Roedd yn adnabyddus am ei blynyddoedd o wasanaeth i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 6 Chwefror, ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

# Colli Cyfaill

Bu farw Gareth Williams ar y pumed o Ionawr eleni ar ôl cystudd blin ac yntau'n 77 oed. Roeddwn yn ei adnabod ers blynyddoedd ond fel athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen y des i'w adnabod yn dda. Dechreuodd ar ei waith yn Rhydfelen ym 1965 ar ôl bod yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn Ysgol Uwchradd Heol Hir am rai blynyddoedd, Ysgol Uwchradd Llanisien erbyn hyn. Bu'n rhannu fy nghartref am rai blynyddoedd nes i Ros ac yntau briodi ym 1973, a ches innau'r anrhydedd o fod yn was priodas iddyn nhw. Des i'w adnabod yn gyfaill cywir, yn gydweithiwr parod ac yn gymydog da.

Brodor o Gorseinon oedd Gareth. Collodd ei dad yn ifanc ond bu ei fam yn fawr iawn ei gofal ohono. Cafodd ei godi ym Mrynteg, capel yr Annibynnwyr, a chafodd ei addysg gynradd yng Ngorseinon, Ysgol Ramadeg Tregŵyr, a Choleg y Brifysgol Abertawe, lle graddiodd gydag anrhydedd yn y Gymraeg. Roedd ganddo barch mawr i'r fagwraeth a gafodd yn yr Ysgol Sul a pharhaodd yn aelod gwerthfawr o ddosbarth yr oedolion yn y Crwys tra gallai. Roedd dull yr Ysgol Sul o weithredu yn gydnaws â'i natur; rhoi a derbyn, rhannu profiadau, chwilio a darganfod, meithrin argyhoeddiad, a chrisialu barn. Hen ddull o weithredu, ac eto roedd yn gwbl gyfoes â phwyslais addysgol y dydd. Credai â'i holl galon yn y datguddiad o Dduw yn Iesu Grist, ac yn ei feddwl a'i waith dilynai feddwl Crist, ysbryd Crist a ffordd Crist. Roedd yn ffyddlon i gyrddau'r eglwys a chymerai ddiddordeb yn ei bywyd a'i gwaith. Byddai wrth ei fodd yn cymryd rhan mewn drama, yn enwedig pan oedd yn arawin at dipyn o hwyl a sbri. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth glasurol a hoffai ganu mewn côr. Bu'n faswr yng Nghôr Aelwyd Hamdden am rai blynyddoedd.



*Gareth yn ei anterth - ac yn ei elfen - ar daith gerdded o Ysgol Rhydfelen i Eisteddfod yr Urdd yn y Bala yn 1972*

Yr oedd yn athro wrth reddf ac ar ei orau wrth ei waith. Enillai ddiddordeb, cydweithrediad a pharch pob dosbarth yn ddiwahân. Esboniai ddarn o farddoniaeth yn fanwl a thrwyadl gan ymweld â gwahanol ardaloedd er mwyn cyflwyno bardd a'i gefndir, a byddai'r Chweched Dosbarth wrth eu bodd. Cyflwynodd Gymru a'i phobl i genedlaethau o ddisgyblion trwy fynd â nhw ar benwythnosau i Dyddewi, Llangrannog, Glanllyn, Tresaith, Cwrtycadno a lleoedd eraill. Gwaith gwirfoddol oedd hyn i gyd, wrth gwrs, ac efallai nad yw'n golygu llawer i bobl iechyd a diogelwch ond iddo ef roedd yn gwbl hanfodol er mwyn sefydlu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg nid yn unig fel iaith yr ystafell ddosbarth ond hefyd fel iaith naturiol a graenus bro a bryn. Rhaid oedd mentro.

Ym 1981 cafodd ei benodi yn Ddirprwy Brifathro ar Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Colled ddifrifol i Rydfelen ond ennill mawr i Gwm Rhymni, a chyfrannodd yn helaeth wrth sefydlu, datblygu a threfnu yr ysgol honno.

Ei ddiddordeb mawr oedd cerdded a dringo mynyddoedd. Roedd yn bencampwr ar ddarllen map. Chollodd neb y ffordd wrth ddilyn Gareth – mwy nag y gellir ei ddweud am y rhan fwyaf ohonom. Rwy'n cofio dringo'r Wyddfa un tro gyda Gareth, Geraint ac Aled. Cychwyn o Lanberis am hanner awr wedi dau ar fore hyfryd o Fedi; y lleuad llawn yn goleuo'r llwybr, a ninnau'n awyddus i fod ar gopa'r Wyddfa cyn i'r wawr dorri. Roedd yr wybren yn hollol glir a ninnau'n gallu gweld y gorwel ymhob cyfeiriad. Ys dywed Dewi Emrys:

> Hen linell bell nad yw'n bod
> Hen derfyn nad yw'n darfod.

Profiad bythgofiadwy.

Ar ôl ymddeol ymddiddorai mewn hanes lleol. Casglodd ddefnyddiau ynghyd ac ysgrifennodd lyfr, *Life on The Heath: The Making of a Cardiff Suburb* ac fe'i cyhoeddwyd gan Merton Priory Press yn y flwyddyn 2001.

Person tawel ei ffordd oedd Gareth ond personoliaeth arbennig iawn. Nid oedd statws nac awdurdod yn bwysig iddo; ei ganllawiau cadarn oedd parch a pherthynas, ac oherwydd hyn câi waith gorau pawb. Dywed Llyfr y Pregethwr: "Beth bynnag a ymaflo dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni." Dyna i chi Gareth Williams.

Gofidiem i gyd o weld cysgodion diwedd oes yn crynhoi o'i gwmpas gan droi, yn y diwedd, yn afiechyd blin ac yn gystudd enbyd. Mae'n cydymdeimlad yn ddiffuant iawn â'i weddw Ros, Geraint a Nia, Aled a Llinos, a'r wyrion Lleucu, Gruffydd a Miriam, a fu'n gymaint o gysur iddo yn ei waeledd.

***Gareth Reynolds***

# YSGOLION

## Ysgol Bro Eirwg

**Llongyfarchiadau**

Llwyddodd Grace Connolly, Blwyddyn 5, i ennill gwobr cystadleuaeth Cydraddoldeb Hiliol wrth feddwl am logo a chynllunio poster ar gyfer calendr 2012.

Llongyfarchiadau mawr i Amelia Giles, Blwyddyn 6, am ennill cystadleuaeth creu logo i fynd ar hysbyfyrddau yng Ngerddi Tredelerch. Fe fydd plant yr ysgol yn teimlo'n falch iawn ohoni pan fyddwn yn mynd am dro i'r Gerddi.

**Chwaraeon**

Bu llawer o blant yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuth Gymnasteg yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, ond yn arbennig i Andre Annan, Bl. 3, am ennill cystadleuaeth y bechgyn.

Dymunwn yn dda i India Shanahan ac i Macy Morgan yn eu cystadlaethau nesaf wrth iddynt gynrychioli Cymru mewn gymnasteg.

**Y Fari Lwyd**

Er mwyn dathlu'r Hen Galan, daeth y Fari Lwyd i'r ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd i weld y Fari wedi ei haddurno a'r llygaid gwyrdd yn fflachio! Cafodd y plant gyfle i holi cwestiynau ac roedd eu diddordeb yn amlwg. Perfformiwyd rhai o ganeuon yr Hen Galan gan blant Blwyddyn 4, gan sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hen draddodiad.



**Tripiau**

Aeth plant Bl.1 i'r Amgueddfa i weld y deinosoriaid ac i gymryd rhan mewn gweithdy arbennig er mwyn dysgu llawer o ffeithiau diddorol am y deinosoriaid.

Bu Bl.5 ar ymweliad â Chastell Caerdydd. Cawsant gyfle i chwarae rôl gan ddysgu am fywyd y cyfnod wrth wisgo i fyny fel gweision a gweithio'n galed wrth orfod glanhau gwahanol artiffactau! Cafodd pawb amser wrth eu bodd.

## Ysgol Glan Morfa

**Codi hyder plant yn darllen**

Os hoffech godi hyder plant yn darllen drwy gynnig awr o'ch amser yn wythnosol, byddai'r Pennaeth, Siân Wyn Thomas, yn falch o glywed gennych. Gallwch gysylltu â hi drwy ffonio 02920 483663 neu drwy e-bostio'r ysgol - sianthomas@cardiff.gov.uk

## Ysgol Melin Gruffydd

**Gala Nofio**

Da iawn i dîm nofio bechgyn Bl. 3 a 4 am ennill y rasus cyfnewid rhydd a chymysg yng Ngala Sirol yr Urdd. Pob lwc i Gethin Marshall, Dafydd Woolley, Gethin Boore ac Owain Chapman yn y Gala Cenedlaethol!

**Rhedeg Trawsgwlad**

Llongyfarchiadau i Tegid Phillips Bl. 5 ar ennill rownd derfynol Trawsgwlad Sir Caerdydd yn ddiweddar.

## Ysgol Pen-y-Pîl

**Agoriad Swyddogol yr Ysgol**

Ar Ddydd Iau yr 8fed o Ragfyr agorwyd yr ysgol yn swyddogol gan y cynghorydd Freda Salway. Croesawodd Mrs Gaynor Williams, y pennaeth-mewn-gofal y rhieni, gwahoddedigion o adran addysg y sir gan gynnwys Mr Chris Jones y Prif Weithredwr, a ffrindiau'r ysgol i'r achlysur arbennig hwn. Cyflwynodd Evie Mock, sef disgybl ieuengaf yr ysgol, Dusw o flodau i Mrs Salway. Ymunodd côr Ysgol Bro Eirwg yn y dathlu.

Braf oedd gweld y neuadd dan ei sang. Cyflwynwyd rhaglen amrywiol a diddorol gan y disgyblion yn olrhain hanes Pen-y-Pîl drwy gerdd a chân. Canodd y Dosbarth Derbyn gyfres o ganeuon am fywyd yn y Derbyn. Adroddodd Blwyddyn 1 "Pump Rheol Aur" yr ysgol. Bu Blwyddyn 2 yn hel atgofion o'u hamser yn Oakfield mewn rhaglen newyddion (trwy gyfrwng cyfres o gyfweliadau teledu). Cafwyd taith ddigidol o gwmpas yr ysgol gan ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 ynghŷd ag esboniad i'r enw Pen-y-Pîl. Daethom i wybod mai fferm oedd Pen-y-Pîl lle deuai'r cymeriad lliwgar Iolo Morganwg i aros gyda'i dylwyth o dro i dro. Esboniodd Jamie Powell sut y bu ei arsylwad o genhinen pedr yn ysbrydoliaeth ar gyfer lliwiau gwisg Pen-y-Pîl. Newidiwyd y cywiair yn ail hanner yr agoriad gyda chyfres o garolau i ddathlu'r Nadolig. Rhoddodd Mrs Alison Gale (Cadeirydd y Llywodraethwyr) ddiolch i'r plant, yr athrawon a'r rhieni am eu gwaith caled. Diwrnod i'w gofio!

**Anrheg i'r ysgol**

Rhoddwyd anrheg hyfryd i'r ysgol gan Matt a Kirsten Rowlands-Mathews sef llechen o Gymru â'r anthem genedlaethol wedi ei cherfio arni. Diolch o galon.

## Ysgol Pwll Coch

Mae côr yr ysgol wedi cael profiadau bendigedig yn ddiweddar, yn cynnwys canu carolau yn Eglwys Sant Ioan yn Nhreganna a Chastell Caerdydd. Ymunodd grŵp telynau'r ysgol ymhob perfformiad, gan ychwanegu at y naws Nadoligaidd.

Aeth Blwyddyn 6 ar drip i Gastell Cyfarthfa. Dyma argraffiadau Mari Jones, Blwyddyn 6A.

> Aethon ni i weld bwthyn Joseff Parry a synnon ni pa mor fach ac oer ydoedd. Roedd y soffa yn galed iawn a ddim yn gyfforddus o gwbl. Dysgon ni am y ffordd roedd pobl yn arfer byw. Tân oedd yn cynhesu bwthyn

Joseff Parry a byddai pobl yn cael bath mewn twb bach o flaen y tân yn ei gyfnod e. Yna, aethon ni i'r castell lle oedd y teulu Crawshay yn arfer byw. Costiodd y castell £30,000 a doedd William Crawshay ddim yn hapus o gwbl gyda fe!

Aeth nifer o ddisgyblion a rhieni o'r ysgol ar daith feicio noddedig o'r Mochyn Du i fyny i Gastell Coch ac yn ôl - taith o 13 milltir - i godi arian at Plant Mewn Angen. Ardderchog blant!



Cafodd y disgyblion nifer o brofiadau rhyngwladol y tymor diwethaf: dawnsio Indiaidd gan gwmni Indian Dance Wales, canu carol Ffrengig draddodiadol mewn gwasanaeth Cristingl, ac yn ystod eu hawr cinio, mae aelodau o Flwyddyn 4 wedi bod yn cael gwersi Mandarin. Maen nhw wrth eu bodd yn dysgu'r iaith Tsieineaidd hon. *Nh iao*!

Llongyfarchiadau enfawr i Grace Collins Blwyddyn 5 a Joely Walters Blwyddyn 4 ar gael rhan mewn perfformiad o Mary Poppins ar iâ.

Yn y byd chwaraeon, mae'r clwb rhedeg yn boblogaidd iawn gyda thua 40 disgybl yn mynychu bob wythnos. Ys dwedodd Efan Owen, Blwyddyn 5, "Mae'r clwb rhedeg yn hwyl." Hefyd, gwnaeth tri thîm pêl-rwyd yr ysgol yn ardderchog yn y twrnamaint rhwyd gyflym ar 29 Tachwedd ym Mhrifysgol Caerdydd, Talybont. Tîm Pwll Coch 'C' enillodd y twrnamaint. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

## Ysgol Bro Morgannwg

### Noson Wobrwyo

Cynhaliwyd noson wobrwyo yn neuadd yr Ysgol yr wythnos diwethaf. Gwahoddwyd Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan i gyflwyno tystysgrifau TGAU a Safon Uwch. Gwobrwywyd Ioan Williams a Kieran Davies gyda Gwobr Goffa Mrs Janet Davies am ragoriaeth mewn Dylunio a Thechnoleg a Jacob Ellis gyda Gwobr Fflur Bedwyr am gyfraniad arbennig at ddiwylliant a Chymreictod.



*O'r chwith i'r dde - Kieran Davies, Jacob Ellis, Rhodri Morgan a Ioan Williams.*

### Cystadleuaeth Coginio Rotary

Roedd pedwar disgybl o Flwyddyn 10 sydd yn astudio Lletygarwch ac arlwyo wedi cymryd rhan yn rownd gyntaf cystadleuaeth coginio Rotary yn ysgol Bryn Hafren ar ddydd Mawrth Ionawr 17.

Roedd safon y cystadlu yn uchel iawn, gyda disgyblion ar draws y Fro yn cymryd rhan.



Y person buddugol oedd Ryan James, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Bu Ryan yn cystadlu yn y rownd Sirol ar 30 o Ionawr – fe gawn y canlyniad yn y rhifyn nesaf.

### Lowri Jones



Mi fydd Lowri Jones disgybl Bl.8 yn perfformio gyda sêr cyflwyniad 'Holiday on Ice' pan ddaw i Gaerdydd ym mis Chwefror. Enillodd y cyfle i berfformio yn y sioe ar ôl perfformio darn hyd funud a hanner o flaen y cyn-bencampwr Olympaidd Robin Cousins. Roedd Lowri yn cystadlu yn erbyn 33 sglefriwr iâ am y cyfle. Mi fydd hi hefyd yn cystadlu yn ei chystadleuaeth ryngwladol gyntaf i Brydain Fawr eleni. Dymunwn bob lwc iddi wrth iddi.

### Siwan Clark



Hoffwn longyfarch Siwan Clark, Bl.13, ar gael cynnig lle ym Mhrifysgol Rhydychen i astudio Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg. Yn ogystal mae wedi gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol UCL yn Llundain, fel rhan o'r cais yma bu rhaid iddi sefyll arholiad mynediad. Mae wedi derbyn adborth arbennig gan yr Athro yn UCL yn nodi bod ei hymateb yn anhygoel ac mai ei harholiad hi oedd un o'r ddau orau o'r 250 ymgeisydd.

# Ysgol Glantaf

**Llawer o longyfarchiadau!**

- Yr Adran Gerdd – cynrychioli Cymru!
- Cerddorfa Ieuenctid Prydain Fawr – Elen Roberts (Bl.10) – bâs dwbwl
- Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru – Gwern Parri (Bl.13) – ffidil
- Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – Josh Pennar (Bl.13) – trombôn; Dafydd Phillips (Bl.11) – trwmped; Owen Harries (Bl.10) – cornet
- Cerddorfa Plant Prydain Fawr – Charlie Lovell Jones (Bl.8) – ffidil – Blaenwr; Alys Howells (Bl.8) – fiola; Hannah Roberts (Bl.8) – fiola; Branwen Jones (Bl.8) – fiola.

**Cyngerdd – Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina**

Nos lun, Ionawr 16eg, aeth criw o fechgyn draw i gapel Bethany, Rhiwbeina, i gynnal cyngerdd yng nghwmni Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. O dan arweinyddiaeth Delyth Medi Lloyd, cafwyd eitemau ardderchog gan y Côr Meibion, yn amrywio o'r 'Dwyfol Un' i 'Cyn Oeri'r Gwaed', a diolch yn fawr am gyflwyniadau penigamp yr unigolion – Charlie Lovell Jones a Gwern Parri ar y ffidl, Hari Lovell Jones ar y xylophone, Daniel Rich ar y gitâr glasurol, a Carwyn, yntau yn chwarae unawd cello ac unawd lleisiol yn eu tro.

**Cyngerdd Nadolig – Eglwys Dewi Sant**

Cafwyd cyngerdd ardderchog unwaith eto gan ddisgyblion yr ysgol i ddathlu'r Nadolig, ac fe lwyddwyd i greu naws rhyfeddol o hyfryd yn yr eglwys fendigedig hon. Cafwyd cyfraniadau gwych gan gorau yr ysgol, y bandiau a'r gerddorfa, y grŵp telynau, yr unigolion talentog, y cyflwyniadau llafar, a'r côr meibion yn binacl ar y cyfan. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymrodd ran mewn cyngerdd hynod o safonol. Diolch i bawb hefyd a gyfrannodd yn hael at elusen 'Pen a Chalon', lle y codwyd bron i £500 tuag at yr achos teilwng yma sydd mor bwysig i ni yng Nglantaf.

Cafwyd llwyddiant mawr mewn meysydd eraill, hefyd, a llongyfarchiadau calonnog i'r canlynol:

- Iwan Marshall a Lance Stephens o (Bl. 7). Enillodd Iwan gystadleuaeth dan 16 oed Tae Kwon Do Cymru am batrymau yn y dosbarth Belt ddu, a llwyddodd Lance Stephens i ddod yn ail yng nghystadleuaeth Trampolîn Cymru dan 13 oed.
- Montanna Deacon (Bl. 10) a ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Nofio Merched Cymru yng Nghasnewydd ar 11/12/11. Mae Montanna wedi ennill dros gant o fedalau nofio dros y blynyddoedd.
- Dale Vosper am ennill gwobr Teilyngdod gan CBAC am gynhyrchu un o'r projectau Safon U2 Dylunio a Thechnoleg mwyaf arloesol a graenus yng Nghymru yn 2011.
- Carwyn Graves a fu'n fuddugol dros yr holl ymgeiswyr a safodd arholiadau U2 Cymraeg CBAC yn haf 2011. Derbyniodd dystysgrif, gwobr o £50, a llythyr personol gan Gareth Pierce, Prif Weithredwr CBAC.

# Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

Pleser oedd gweld 95 o ddisgyblion yr ysgol yn cael eu gwobrwyo â Gwobr Dug Caeredin ym mis Ionawr yn Neuadd y Ddinas. Cyflwynwyd y gwobrau gan Sam Warburton a Dan Parks o'r Gleision. Llongyfarichiadau mawr yn ogystal i Hopcyn Mathews, Mali Williams a Gwenno Pari Huws ar ennill cymhwyster Arweinwyr Ifanc Dug Caeredin.

Cafwyd cyngerdd anghygoel cyn Dolig yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd, gyda dros 300 yn y gynulleidfa yn mwynhau'r gerddorfa, corau iau a hŷn yr Ysgol, nifer o unadwyr a deuawdau, a pherfformiad cyntaf (ac efallai olaf) côr staff yr Ysgol. Diweddglo emosiynol ac anrhydeddus i gyfnod Siriol Burford ym Mhlasmawr.

Newyddion arbennig i un o'n cyn ddisgyblion, Zak Lee Green sydd yn aelod o garfan rhwyfo Prydain dan 23 oed. Mae Zak wedi ei ddewis i gario fflam y gemau Olympaidd pan fydd y fflam yn teithio o amgylch Caerdydd ar Fai 25ain a 26ain.





Cynhaliwyd Noson Cerddor Ifanc Plasmawr 2012 ar ddiwedd mis Ionawr, gyda 9 unigolyn dawnus yn cyrraedd y llwyfan. Llongyfarchiadau gwresog i Gwyn Robins (Bl. 7 – ffidil) am ennill y gystadleuaeth iau, ac i Manon Browning (Bl.12 – telyn) am ennill y gystadleuaeth hŷn. Diolch enfawr i'r beirniaid, Mrs Lowri Guy a Miss Bethan Pickard.

Braf oedd cael estyn croeso cynnes i Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, i Blasmawr yn ddiweddar. Cafwyd sesiwn holi ac ateb bywiog gyda Blwyddyn 9 ac yna, dan arweiniad y disgyblion, manteisiodd y Comisiynydd ar y cyfle i ddysgu ychydig am fentrau mentora cyfoedion yr ysgol, gwaith y grwpiau "Merched Mentrus" a "Bechgyn Bonheddig", ac i wrando ar gyflwyniad grymus gan griw "DIGON", grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n cydlynu ymgyrch gwrth-fwlian yr ysgol.

**Sylwadau'r Golygydd ar y llythyr 'Gormod o bwdin?'**

*(tudalen 12)*

"Rhydd i bawb ei farn." yw'r hen ddywediad, a dw i ddim yn credu y dylai'r Dinesydd fygu barn unrhywun sy â rhywbeth yn gwasgu arno. Ond nid dyma'r tro cyntaf i ni glywed dadleuon fel hyn, ac agwedd hollol wahanol sy'n cael ei mynegi gan G.R. yn ei golofn yn y rhifyn hwn. Amserol, felly, yw'r erthygl gan Sian Parry-Jones, Rheolwr Gwasanaethau Twristiaeth y Sir ar dudalen flaen y rhifyn hwn: Pa mor Gymreig yw Caerdydd? Gadewch i ni gael ymateb bywiog!

# SAFLE NEWYDD I YSGOL MELIN GRUFFYDD

Ar ôl hir ddisgwyl daeth cadarnhad ddiwedd Rhagfyr, a hynny ar ffurf arolwg barnwrol, bod y Sir yn gallu mynd ymlaen â'r cynllun i symud Ysgol Melin Gruffydd i safle Ysgol Eglwys Newydd. Y bwriad yw addasu'r adeiladau i dderbyn Melin Gruffydd fel ysgol 2 ffrwd erbyn Medi 2013. O ran Rhieni dros Addysg Gymraeg, mae hyn yn destun llawenydd mawr.

**Datblygiadau eraill**

Yn ogystal â hyn, mae'r Gweinidog Addysg, Leighton Andrews, wedi rhoi sêl ei fendith ar ddatblygiadau eraill sydd gan y Sir mewn golwg o dan y cynllun *21st Century Schools*. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

- Ymestyn Ysgol y Wern o 1.8 ffrwd i 2 ffrwd y flwyddyn erbyn Medi 2012 (ar gost o £977,000). Yna, erbyn Medi 2017, ei hymestyn i 2.5 ffrwd (ar gost o £2,680,000 ).
- Ysgol un ffrwd newydd yn Nhrefynach (Grangetown) i fod ar agor ym mis Medi 2015 (ar gost o £6,665,000). Nid yw'r safle'n hysbys eto.
- Gwelliannau i Ysgol Glan Ceubal, i'w cwblhau erbyn Medi 2016 (ar gost o £2,132,000).

Yn ogystal â hyn i gyd, mae cynllun arall ar y gweill, sef adeilad newydd ar gyfer Ysgol Treganna + Tanyreos, gan ddarparu 3 ffrwd yn lle'r 2 bresennol. Mae'r ddarpariaeth hon i fod yn barod erbyn Medi 2013 a disgwylir i'r gwaith ddechrau mewn mis neu ddau.

**Popeth yn iawn, felly!**

Ar yr wyneb mae'r rhestr uchod yn ymddangos yn dda ond, mewn gwirionedd, mae'n bell o fod yn ddigonol i gwrdd â'r galw o hyn tan 2020. Mae'r cynlluniau hyn yn ychwanegu rhyw 2 ffrwd at y 24 sydd ar gael eisoes – ond bydd angen 14 ffrwd ychwanegol erbyn 2020 os yw'r twf presennol yn mynd i barhau! Hyd yn oed pe bai'r twf yn arafu i'r hyn oedd e cyn 2006, byddai dal i fod angen 8 ffrwd ychwanegol.

Ers 2006 mae nifer y newydd-ddyfodiaid ar draws Caerdydd wedi cynyddu o 464 i 655, sef cyfartaledd ychydig dros 8% y flwyddyn. Nifer y newydd-ddyfodiaid y llynedd oedd 655, cynnydd o 57 (bron 10%) ar y nifer ddaeth i mewn yn 2010. Mae'r rhifau o'r meithrinfeydd yn awgrymu tebygolrwydd twf o'r fath eleni eto. Os hynny, fe fydd 720 plentyn yn ymgeisio am y 708 lle sy ar gael.

Pan agorir Treganna newydd fel ysgol 3 ffrwd yn 2013, bydd 6 ffrwd yn yr ardal yna o'r ddinas, gan fod Pwll Coch nawr yn 3 ffrwd. Newyddion da yw'r bwriad i godi ysgol newydd sbon yn Nhrefynach, eto yn yr un ardal. Serch hynny, ni fydd yr ysgol newydd yn darparu 7fed ffrwd ond yn hytrach yn galluogi Pwll Coch i fynd yn ôl i ysgol 2 ffrwd. Mae'r twf yn ardaloedd Treganna/ Pontcanna/ Trefynach wedi aros ar y raddfa o 10% ers 2005. Felly serch yr ysgol newydd bydd pethau'n argyfyngus eto yn yr ardal o 2015 ymlaen oni bai i'r Sir ganiatau i fwy na 30 ddechrau yn yr ysgol newydd o 2015 ymlaen. Ateb byr dymor, wrth gwrs, fyddai hynny – oni bai i'r Sir benderfynu ehangu'r ysgol newydd i 2 ffrwd yn fuan, fel a ddigwyddodd yn achos Pwll Coch.

Da yw gweld bod y Sir yn symud i sicrhau dyfodol hir-dymor Ysgol Glan Ceubal i dderbyn gorlif Melin Gruffydd a Phencae.

**Heddiw ac yfory**

I gloi, felly, mae cynlluniau'r Sir yn debygol o fod yn ddigonol am eleni a 2013. Ond o 2014 i ddiwedd y ddegawd, gall y sefyllfa fod yn argyfyngus – hyd yn oed os bydd y twf yn arafu i hanner yr hyn ydyw ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae'r sefyllfa'n gymhleth iawn, ac mae'n anodd i'r Sir ragweld faint o alw fydd am lefydd mewn ysgolion Saesneg, hefyd, a'r plant heb eu geni eto!

Dylem felly fod yn ddiolchgar fod cynllun o ryw fath ar gyfer y dyfodol agos, gan fod yn benderfynol o fynnu darpariaeth ychwanegol pan fydd y sefyllfa'n gliriach.

***Michael Jones***

*[Gellir cael fersiwn lawn o erthygl Michael Jones o wneud cais i'r golygydd.]*


## Llety gwyliau ar osod yn Edern Pen Llŷn

Golygfeydd godidog, teithiau cerdded gwych, o fewn munudau i lan y môr. O fewn tafliad carreg i fae enwog Porthdinllaen a'i glwb golffio erbyn hyn. Digonedd i wneud, o ferlota, beicio, pysgota, hwylio, cerdded, bywyd gwyllt, henebion, i hamddena a llawer llawer mwy.

**Am fanylion pellach cysylltwch â Gwenan Hughes ar 01758 770363 neu e bostiwch taghughes@yahoo.co.uk**


## Noson yn yr Opera

*yng nghwmni Rebecca Evans a ffrindiau*

**NEUADD DORA STOUTZER**
**COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU**

**27 Mawrth, 2012 am 8.00 y.h.**

Tocyn £20 ar werth o www.rwcmd.ac.uk
neu drwy ffonio 029 2039 1391

REBECCA EVANS • GARY GRIFFITHS
HANNAH STONE • CORDYDD

*Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012*

## Rysáit Mis Chwefror

## PARSELI BRITHYLL A LLYSIAU

Rysait delfrydol ar gyfer swper ysgafn, iachus. Gellir defnyddio unrhyw fath o ffilet pysgodyn. Gellir hefyd defnyddio brest cyw iâr yn lle'r pysgodyn ond bydd angen coginio'r rysait am hirach.

***Cynhwysion***

2 ffiled tua 150g/ 5 owns yr un o frithyll ffres heb groen
25g/ 1 owns o fenyn
Llond llwy fwrdd o gennin wedi'u golchi a'u torri'n stribedi
Llond llwy fwrdd o foron wedi'u torri'n stribedi hir
50g/ 2 owns o fadarch wedi'u sleisio'n denau
Llond llwy de o daragon neu ddil ffres (neu sych) wedi'u malu'n fân
Halen a phupur
Sudd 1 lemwn
2 llond llwy fwrdd o win gwyn sych
Olew i iro

***Dull***

1. Cynheswch y ffwrn i nwy 7/ 425°F / 210°C

2. Plygwch ddarn mawr o bapur pobi yn ei hanner a thorrwch hanner cylch 20cm o radiws. Torrwch ail gylch yr un fath â'r cylch cyntaf.

3. Toddwch y menyn mewn padell, ychwanegwch y cennin a'r moron a'u coginio am 5 munud. Ychwanegwch y perlysiau ac ychydig o halen a phupur.

4. Brwsiwch olew ar du mewn y cylchoedd papur. Rhowch hanner y llysiau ar hanner un cylch, a gweddill y llysiau ar hanner y cylch arall. Torrwch y ddau frithyll yn dri darn a'u gosod ar y llysiau. Gwasgwch ychydig o sudd lemwn ac arllwys llond llwy fwrdd o win gwin ar ben y cyfan.

5. Plygwch hanner rhydd y papur dros y llysiau a'r brithyll i wneud parsel. Plygwch ochrau'r papur ddwywaith i sicrhau ei fod wedi'i gau'n dynn.

6. Brwsiwch ychydig o olew ar y papur pobi. Rhowch y parseli ar dun pobi a'u coginio am 7- 9 munud. Gweiniwch y parseli fel ag y maent, ar blât, gyda thatws.

Rysait o lyfr Nerys Howell *'Cymru ar blât'*

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# COLOFNYDD Y MIS

## Grahame Davies

Difyr iawn oedd darllen yn rhifyn Rhagfyr/Ionawr *Y Dinesydd* atgofion Eifion Wyn Hopwood am ei ieuenctid ym mhentref Coedpoeth. A minnau'n frodor o'r un pentref sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers 1997, meddyliais, er mwyn amrywiaeth, y dylwn osgoi dilyn yr un trywydd wrth lunio'r golofn hon.

Yn hytrach, carwn sôn am fewnfudwyr eraill i'r brifddinas, a'u disgynyddion – rhai sydd wedi bod yn destun ymchwil academaidd imi dros y blynyddoedd diweddar. Sôn yr ydw i am gymuned Fwslimaidd Caerdydd, y cofnodwyd peth o'u hanes yn fy llyfr diweddar ar hanes Cymru ac Islam, *The Dragon and the Crescent*.

Cychwynnodd y gymuned Fwslimaidd Gymreig yn y 19eg Ganrif wrth i forwyr o'r Yemen a'r cyffiniau ymgartrefu yn y brifddinas. Ceir cred gyffredin hyd heddiw mai gan Gaerdydd y mae mosg hynaf Prydain, sef yr un yn Stryd Glynrhondda, Cathays. Arferwn rannu'r gred fy hun nes i ymchwil y Dr Sophie Gilliat Ray, arbenigwraig ar Islam ym Mhrifysgol Caerdydd, ddangos mai myth, mewn gwirionedd, yw'r stori, ac mai yn Woking a Lerpwl y mae mosgiau hynaf Prydain, a hynny o ddegawdau lawer.

Serch hynny, mewn sawl man yn y ddinas a'r cyffiniau, ceir tystiolaeth weladwy o ddylanwad hanesyddol Islam, ac nid yn unig yn y mosgiau. Dyna Ystafell Arabaidd Castell Caerdydd, wrth gwrs. Ac uwchben prif fynedfa Neuadd y Ddinas, sylwer ar gerfiad amlwg o gilgant a seren Islam wedi'u cofleidio gan ddraig. Ac os byth yr ewch i Neuadd Goffa'r Barri, sylwer ar enwau'r morwyr o Arabiaid ymhlith meirwon lleol y rhyfeloedd byd a gofnodir ar wal y cyntedd. Rhannodd y gymuned Fwslimaidd beryglon y rhyfeloedd hynny yn llawn.

Yn ogystal, y mae nifer o lenorion Cymreig yn y ddwy iaith, megis Tom Davies, Peter Finch, John Williams, Lewis Davies ac Iwan Llwyd, wedi ymateb i bresenoldeb Mwslimiaid yng Nghymru yn eu gwaith.

Hyd yn hyn, cymharol ychydig o ddeunydd llenyddol a darddodd o'r gymuned Fwslimaidd ei hun, er bod rhai eithriadau megis drama ffraeth Afshan Malik, *Safar*, a gwaith cylch barddonol yr iaith Wrdw yn y ddinas, sef *Bazm e Adab*. Serch hynny, hyderaf y cyfyd cyn hir lenor o bwys o blith y gymuned hon a fydd yn dehongli'r profiad Cymreig drwy lygaid Mwslimaidd, gan ychwanegu llais arall i amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog y ddinas.

# *Annwyl Olygydd...*

## Gormod o bwdin?

Rydym i gyd wedi dod i arfer ag erthyglau yn *Y Dinesydd* sy'n clodfori twf addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Ond mae 'na gwestiynau dyrys yn cyniwair yn fy mhen.

Ydy plant ein hysgolion 'Cymraeg' yn medru'r iaith go iawn? Ydy eu 'Cymraeg' yn unrhyw beth mwy na throsi slafaidd o idiomau a theithi meddwl y Saesneg? Allan nhw fynegi pethau cymhleth, diddorol yn yr iaith? Pam bod angen i Lawlyfr ysgol uwchradd gynnwys rheolau gramadeg **mor** sylfaenol? Pam y mae hyd yn oed y Cymry Cymraeg yn gweld iaith eu plant yn dirywio wrth iddyn nhw symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd?

Dyma gwestiynau go anodd, a chwestiynau does bron neb eisiau eu gofyn yn gyhoeddus.

Mae addysg 'Gymraeg' ein prifddinas eisoes ar fin tyfu y tu hwnt i bob rheswm. Y caswir yw bod presenoldeb nifer fawr o blant sydd heb y Gymraeg, i bob pwrpas, ar fin glastwreiddio holl bwrpas sefydlu'r ysgolion Cymraeg yn y lle cyntaf. Maen nhw'n rhoi her amhosibl hyd yn oed i'r athrawon mwyaf ymroddedig.

Yn fy marn i yr unig obaith ar gyfer y dyfodol fydd cael rhyw fath o broses dewis o ran safon Cymraeg y plant, wrth iddyn nhw adael yr ysgolion cynradd, gyda chyfyngiadau llym ar y nifer sy'n mynd ymlaen i'r ysgolion uwchradd.

***Rhiant pryderus***

*(Cafwyd enw a chyfeiriad y llythyrwr.)* *[Gwelwr sylwadau'r Golygydd ar dudalen 10]*

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbeina

Bu'n gyfnod eithriadol o brysur dros y Nadolig. Mi ddechreuodd y cyfan yn Oedfa'r Plant – oedfa ardderchog, a diolchwyd i'r rhieni am eu gofal o'r plant gan y Gweinidog, y Parchg T. Evan Morgan. Fel arfer, galwodd Sion Corn gydag anrhegion i'r plant ac mi gafodd yr oedolion goffi a mins pei.

Y Sul canlynol cafwyd Oedfa Nadolig gan yr oedolion. Diolchwyd i Mrs Gwenda Francis am drefnu'r oedfa ac i Mr Gwilym Roberts am ofalu am y côr. Diolch i Mrs Gwenda Francis, Mrs Mair Jenkins a Mrs Carol Davies am gyfrannu'r goeden Nadolig.

Roedd y capel yn orlawn ar gyfer Oedfa Noswyl Nadolig a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Y cyfeilyddion oedd Alun Guy ac Emyr Wyn Roberts.

Dymunir gwellhad buan i'n hysgrifennydd, Gwyndaf Owen, sy'n dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

## Eglwys Gadeiriol Llandaf

Bob dydd Mawrth am 9.30yb a dydd Iau am 7.30yb, cynhelir gwasanaethau cymun Cymraeg yr eglwys ac mae croeso cynnes i unrhywun ymuno â ni. Dim ond hanner awr yw hyd pob gwasanaeth ac maen nhw'n cael eu cynnal yng Nghapel Dyfrig Sant, sydd i'r chwith o'r prif allor. Gerllaw y sefydlodd Dyfrig Sant y gymuned gyntaf yn y chweched ganrif. Daeth Teilo Sant ac Euddogwy Sant yn olynwyr iddo. Ers hynny dyma dri nawdd sant y gadeirlan.

## Y Crwys

### Y Gorlan

Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus o'r Gorlan yn y cyfnod cyn y Nadolig. Catherine Jobbins oedd ein gwraig wadd yn y cyntaf, a chyfeiriodd at ddau lyfr a roddodd gryn bleser iddi o'u darllen, sef O Tyn y Gorchudd gan Angharad Price, a Wele Gwawriodd gan Angharad Tomos. Wedyn bu Bryan James yn cyflwyno enghreifftiau o arysgrifen addurnedig. Canolbwynt ei sgwrs oedd y gerdd Ystrad Fflur – wedi ei datgymalu, a'r geiriau unigol wedi eu cymysgu i lunio darn o gelf.

### Gŵyl y Geni

Cyfrannodd y Gymdeithas Ddrama at lwyddiant pasiant Gŵyl y Geni oddi allan a thu mewn i Eglwys y Tabernacl yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Cafwyd ganddynt hefyd wasanaeth arbennig iawn yn ein harwain at ystyr ysbrydol y dathliadau, a hynny trwy gyfrwng cerdd a chân a darlleniadau o lithoedd. Roedd y rhaglen yng ngofal Betsan Evans.

Bu'r dydd Sul cyn y Nadolig yn hynod o ddiddorol. Byddai Mathew a Luc wedi bod wrth eu bodd gyda'r dehongliad newydd o stori'r geni gan aelodau'r Ysgol Sul yn y bore. Ac yn y nos cafwyd oedfa o fyfyrdod tymhorol yng ngofal y Gymdeithas, wedi ei saernïo yn ofalus gan Eleri Bines. Ffurfiwyd côr bychan o dan arweiniad Gareth Rhys Davies i roi i'r noson gydbwysedd cerddorol a llafar.

### Y daith gerdded

Bu'r daith gerdded eleni yn hynod o lwyddiannus – chwe milltir a hanner o gwmpas Bae Caerdydd gan ddechrau ar Bont Clarence Road cyn troi am ochr Penarth o'r Bae, yna i lawr ar hyd y glannau i gyfeiriad Pont y Werin, sy'n cysylltu Penarth â'r Bae. Croesi'r morglawdd i gyfeiriad y dociau wedyn cyn gwyro yn ôl i gyfeiriad yr Eglwys Norwyaidd. Rhaid canmol David Jones am drefnu taith mor ddifyr ac addysgiadol.

## Capel Ebeneser

### Lansio Efengyl Marc

Ddechrau mis Rhagfyr cafwyd noson yn Ebeneser i lansio copi printiedig o fersiwn beibl.net o Efengyl Marc. Daeth criw da ynghyd ac mae'n debyg y gellid crynhoi'r farn amdano i eiriau un person ifanc. 'Dw i'n meddwl bod beibl.net yn grêt. Mae'n rhoi gwirioneddau'r Beibl yn syml iawn, ac yn hynod o rhwydd i'w ddarllen'. A dyna fwriad beibl.net - cyflwyno Duw mewn iaith lafar syml. Ewch i weld a darllen y Testament Newydd yn ei gyfanrwydd yn www.beibl.net

### Hosbis George Thomas

Ein helusen am y cyfnod Medi 2011 i Orffennaf 2012 yw Hosbis George Thomas. Cafwyd coffi a chacen Almaeneg (Kaffe und Kuchen) yn dilyn gwasanaeth bore Sul 4 Rhagfyr a llwyddwyd i godi £200. Diolch i Petra Bennett am drefnu. Wedyn, ar 21 Rhagfyr, bu criw da yn canu carolau yn Dewi Sant a chodwyd bron i £314 mewn cwta awr. Diolch i Arwel Peleg Williams am arwain y gân. Drwy nifer o weithgareddau rhwng Medi a Rhagfyr llwyddwyd i godi £700 a chyflwynwyd siec i'r elusen cyn diwedd y flwyddyn gan fod rhywun dienw wedi addo i'r elusen bunt am bob punt a gyfrannwyd erbyn 31 Rhagfyr 2011. Tybed faint gawson nhw?

### Camu allan

Fel y gŵyr llawer, mae Ebeneser wedi camu allan o'r adeilad ar Heol Siarl ar y trydydd Sul o bob mis ers haf 2010. Braf yw cael dweud y bydd hynny'n parhau eleni. Efallai eich bod wedi gweld y faner ar y ffens tu allan yn yr wythnos yn arwain at y Sul? Bydd y cwrdd nesaf ar 19 Chwefror. Mae clwb ieuenctid 'Y Mob' hefyd wedi camu allan ers rhai misoedd ac yn cwrdd yn y Gospel Hall, Ystum Taf, bob yn ail nos Wener. Mae'r clwb ieuenctid yn griw o 24 brwd a bywiog. Am fanylion pellach ewch i'n gwefan www.ebeneser.org neu e-bostiwch ebeneser@btinternet.com

## Minny Street

### Cydymdeimlad

Cofiwn yn ddiolchgar am y Parchedig Gareth Watts a fu farw ar 2 Ionawr mewn cartref gofal yn Puttenham, Guildford. Daeth atom i Minny Street wyth mlynedd yn ôl wedi iddo ymddeol fel athro yng Ngholeg Diwinyddol yr Annibynwyr, Aberystwyth. Cyn ei gyfnod yn Aberystwyth, bu'n weinidog yn y Barri, a chyn hynny yn Llanberis ac Aberdâr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu a'u cyfeillion.

**Priodas**

Dymunwn yn dda i Rachel (Evans) ac Antony Metcalfe yn dilyn eu priodas yng Ngwlad yr Haf ym mis Rhagfyr.

**Dathlu'r Geni**

Cafwyd cyfres gyfoethog o gyfarfodydd yn ystod mis Rhagfyr i baratoi ar gyfer dathlu'r Geni. Dechrau trwy ganu carolau yn siop John Lewis ar 1 Rhagfyr gan godi arian ar gyfer elusen yr eglwys, Ambiwlans Awyr Cymru. Cyfle wedyn i geisio arweiniad Duw trwy gyfnod yr Adfent mewn cwrdd gweddi ar 8 Rhagfyr. Trwy gyfrwng dilyniant o oedfaon a chyfarfodydd cafodd aelodau o bob oed – yn blantos, yn blant, yn bobl ifanc ac yn oedolion – gyfle i berfformio a myfyrio ar arwyddocad neges y Nadolig. Yn gynhaliaeth i'r cyfan yr oedd pregethu ysbrydoledig ein gweinidog.

Unwaith eto cafwyd oedfa hwyr syml a chofiadwy Noswyl y Nadolig. Croesawyd cyfeillion Y Crwys atom fore'r Nadolig, gyda'r Parchedig Glyn Tudwal Jones yn pregethu'n gofiadwy am ddyfodiad Iesu i'r byd, yn 'ddelw'r Duw anweledig'. I gloi'r dathlu cynhaliwyd ein Hoedfa Blygain flynyddol ar 8 Ionawr yn Eglwys Teilo Sant, Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Er nad ydym yn dilyn yr hen draddodiad gwreiddiol o ganu gyda 'chaniad y ceiliog', dilynwn arfer diwedd y ddeunawfed ganrif o gyfarfod yn ystod y dydd rywbryd rhwng y Nadolig a'r Hen Galan.

**Dinasyddiaeth**

Bu Cylch Dinasyddiaeth yr eglwys wrthi'n brysur yn sicrhau cyfle trwy gyfryngau megis Banc Bwyd Caerdydd, Cymorth Cristnogol ac anrhegion i drigolion digartref y brifddinas, i aelodau gofio am rai mewn angen dros gyfnod yr Ŵyl.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org .

## Salem, Treganna

**Bedydd**

Ym mis Rhagfyr bedyddiwyd Nel, merch Bethan a Steve. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Taith i'r Fenni a chinio yng Nghrughywel**

Wedi prysurdeb y Nadolig, trefnwyd gwibdaith ganol Ionawr i ymweld â'r Fenni a mwynhau pryd blasus yng Nghrughywel. Y teimlad yn gyffredinol oedd bod hwn yn amseriad da i gael newid yng nghanol Ionawr llwm yr olwg, a mwynhau cwmnïaeth mewn mis sy'n ddigon tawel fel arfer. Cawsom ddiwrnod i'r brenin, a phawb yn eu hwyliau a digonedd o chwerthin! Diolch i'r rhai a drefnodd, ac edrychwn ymlaen at y daith nesaf!

**Ailddechrau**

Wedi dathliadau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd, mae'r dosbarthiadau a'r clybiau arferol wedi ailddechrau, gan gynnwys y Clwb Canu ar 24 Ionawr o dan arweinyddiaeth Geraint Cynan.

Croeso mawr i chi ymuno â ni yn oedfaon y Sul am 10.30 a 6.

**Adran yr Urdd**

Mae'r Adran wedi ailddechrau gyda bang, fel petai, ac yn cwrdd bob nos Iau rhwng 6-7. Bydd yr Adran yn gwneud pob math o waith crefft ac yn paratoi rhai eitemau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Croeso i blant oed cynradd ymuno â ni.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys a Hefin a Nia Griffiths a'r teulu, wedi i Hefin golli ei dad yn ddiweddar.

**Apêl yr enwad tuag at Guatemala**

Byddwn yn brysur yn ystod y misoedd nesaf yn meddwl am syniadau ac yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at apêl Guatemala, trwy Gymorth Cristnogol. Yn eu plith bydd cyngerdd fis Hydref nesaf, a llu o weithgareddau eraill, er mwyn cyfrannu'n adeiladol ac yn ymarferol tuag at fywydau pobl llai ffodus na ni.

## Tabernacl

**Oedfaon y Nadolig**

Diolch i bawb a gyfrannodd i oedfaon y Nadolig, yn arbennig oedfa'r ifanc ar y nos Sul a'r cyfeillion a gyfrannodd i'r oedfa fore dydd Nadolig. Gwerthfawrogwyd hefyd y canu allan ar yr Ais ar y bore Sul cyn y Nadolig.

**Drama'r Nadolig**

Bu'n rhaid i drefniadau'r eglwys newid dros y dair wythnos y bu'r festri yn bentref Nasareth ac yn dref Bethlehem. Dywed y trefnwyr bod dros 4,320 o bobl wedi bod yn y perfformiadau, a bod cyfanswm y plant ysgol a ddaeth i weld y ddrama wedi dyblu niferoedd 2010.

Atyniad ychwanegol eleni oedd presenoldeb yr asynnod yng nghwrt y capel oedd yn cynnig reidiau i'r plant iau. Cyfrannodd y cyfan at hwyl yr Ŵyl. Yn ddi-os, rhannwyd stori'r Nadolig mewn ffordd gofiadwy ac effeithiol.

**Cofio Mair Davies**

Bydd pawb sy'n cofio Mair Davies yn cyfeirio at ei hynawsedd, ei hwyl a'i didwylledd digwyno. Roedd ganddi lu o ddoniau ond yn amlycach na phob dim, roedd yn un a rannodd lawenydd. Gofalodd am ei phriod, Emrys, a'i ferched yntau, Helen a Siân, a bu'n ffrind ffyddlon i gymaint o bobl. Cofiwn amdani gan ddiolch i Dduw am y gras a ddatguddiwyd yn ei bywyd.

**Aelod Newydd**

Yn y Sul cymundeb cyn y Nadolig trosglwyddwyd aelodaeth Mrs Gwyneth Evans o Eglwys Annibynnol Penygraig ger Caerfyrddin i'r Tabernacl. Daeth i fyw yn agosach at ei merch, Sian Wyn Thomas, a'r teulu ym Mhenylan.

**Bore Coffi**

Diolch i Glenys a Ron Linsday am eu croeso cynnes ym mis Rhagfyr ac i Jean Evans yn Nhongwynlais ddechrau'r flwyddyn.

**Hwyl i blant cynradd**

Fel rhan o ymdrech Marc Jon fel hyrwyddwr gwaith yr ifanc yn ein plith, penderfynodd drefnu sesiynau o hwyl brynhawn Sadwrn cyntaf bob mis. Roedd yr un cyntaf yn 2012 yn llwyddiant ysgubol.

## Eglwys Dewi Sant

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Cafwyd cyflwyniad hyfryd gan blant yr Ysgol Sul yn ystod gwasanaeth y bore wythnos cyn y Nadolig, a gyda'r nos cynhaliwyd y gwasanaeth Llithoedd a Charolau.

Croesawyd gweithwyr y swyddfeydd cyfagos i wasanaeth carolau'r Cilgant. Mae'r nifer sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn yn dyst i'w boblogrwydd a chroesawyd pawb i'r neuadd ar gyfer cinio ysgafn ar ôl y gwasanaeth.

Noswyl y Nadolig roedd Cymun cynta'r Nadolig am 11pm. Braf oedd croesawu nifer o bobl ifanc yr eglwys sy wedi symud i ffwrdd ac hefyd

gyfeillion o'r capeli Cymraeg. Roedd e'n wasanaeth cofiadwy. Fore'r Nadolig roedd gweinyddiad arall o'r cymun.

**Cristingl**
Ddechrau Ionawr cynhaliwyd gwasanaeth teuluol y Cristingl, pan dderbyniodd pob aelod o'r gynulleidfa Gristingl. Plant yr Ysgol Sul oedd wedi addurno'r orennau gyda rhuban coch, ffrwythau sych, losin a channwyll. Bu pawb yn gorymdeithio o gwmpas yr eglwys yng ngolau'r canhwyllau. Rhoddwyd y casgliad i Gronfa Archesgob Cymru er budd plant.

**Cymdeithas Nos Iau**
Cynhaliwyd swper i ddathlu Noson Santes Dwynwen yn y neuadd. Paratowyd y wledd gan ferched yr eglwys, a chafwyd adloniant gan Ieuan Jones, ein horganydd amryddawn! Cyflwynydd y noson oedd Falmai Griffiths a lwyddodd i'n difyrru gyda'i storïau doniol.

**Cydymdeimlo**
Trist yw cofnodi colli dwy o ffyddloniaid yr eglwys. Bu Morfydd Stone farw cyn y Nadolig. Daeth cynulleidfa luosog i'w hangladd ddiwedd Rhagfyr a chlywsom deyrngedau iddi fel athrawes ac eglwyswraig.

Roedd Vera Thomas wedi bod yn aelod yn Newi Sant ers dros hanner can mlynedd – un o'r aelodau hynaf ynghyd â'i gŵr, Albert. Estynnwn ein cydymdeimlad iddo ac i Susan, merch Albert a Vera, yn eu colled.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Richard a Lucy King ar enedigaeth Elen Mair yng Nghaerloyw. Mae Richard yn fab i Dawn a John King.


# Cwlwm Busnes Caerdydd


**Cynhelir ein Cinio Blynyddol yng Ngwesty'r Hilton, Nos Iau, Mawrth 22ain am 7.30yh.**

Ein Gŵr Gwadd eleni yw Mr Ron Jones, Cadeirydd Gweithredol, cwmni teledu Tinopolis.

*Mae croeso i unrhywun sydd â diddordeb yn y byd busnes i ymuno â ni*

Tocynnau (£45.00 yp) neu byrddau o 8 neu 10 oddi wrth Geraint Hampson-Jones ar 0845 213 1220 neu Geraint.hampson-jones@brewin.co.uk


## DINESAIR Rhif 119



**Ar Draws**
1. Bwriad newid ward yw ei wneud yn ddi-derfyn (2-3-4)
7. Ar yr ail casglodd o enau'r sach gerllaw (4)
9. Lle i arfer coeg efallai (9)
10. Gwasgu'r dirprwy o ochr i ochr (4)
13. Dechrau llon yng nghanol y prenau ond gorffen yn brin (5)
15. 'Troir yn fêl y ______ yno.
    Yno rhoir y caeth yn rhydd' (W.T.). (6)
16. Hanner y pren ar 500 cyfer o'r math hyn (6)
17. Troi'r tir gyda dagr! Ie, rywsut (6)
19. Siw yn chwarae onig i'r gerddoriaeth (6)
20. Balm o Nanhyfer yn cynnwys y pren (5)
21. Ym mhen pella'r hen dŷ gwelwch ddau yn llesgáu (4)
24. 'Gwefus ________ a saif byth: ond tafod celwyddog ni saif funud awr'. (Diarhebion) (9)
25. Cath wyllt yn colli'i ben i'r wyryf (4)
26. '________ iddi'n lleddf,
    Roi imi esmwythâd. (W.J.) (9)

**I Lawr**
2. Mae hwn yn un bitw iawn ar yn ail (4)
3. Troi'r offer tra ar ddi-hun (4)
4. Rhoi hanner ffafr mewn diod yn peri niwed (6)
5. 'O'th flaen mae drws _______,
   Na dichon neb ei gau'. (D.W.) (6)
6. Dangos dannedd yn nherfysg Ynys y Grug (9)
8. Cymryd seibiant os yw yn codi yn dilyn gormod o sŵn (8)
11. 'Seren fechan yn y nos
    ___ _ _____ dy wên mor dlos?'. (AN) (3,1,5)
12. Bardd serchog heb ddechreuadau campus (8)
13. '_____ yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid. (PREGETHWR) (5)
14. Gwneud consurior allan o Edwin (5)
18. Bwrw'a galw allan o ganol y siop (6)
19. Morodwy o gwmpas y cylch (6)
22. Yn dawel mae'r praneiwr mewn dolur. (4)
23. Cynhaeafu'r mis. (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Mawrth.

**Enillydd Croesair Rhif 117 -**
## Gwilym Edwards, Llanuwchllyn, Y Bala

**Atebion Rhif 117**
**Ar Draws** – 1. Peraroglau 7. Ymbesgi 8. Abaty 10. Oerfel 12. Merthyr 13. Gwaed 14. Isel 16. Asen 17. Llurig 19. Dawnus 20. Gwesty 23. Unnos 24. Ciniawa 25. Bachgen pren
**I Lawr** – 1. Pybyr 2. Rwsieg 3. Reis 4. Gwared 5. Alaethus 6. Dyfodiadau 9. Yn Ronsyfal 11. Lwcus 12. Menig 15. Echwynna 17. Lluosog 18. Gwener 21. Staen 22. Acen

# Calendr y Dinesydd • Chwefror-Mawrth

**Mawrth, 14 Chwefror**
Merched y Wawr Caerdydd, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mawrth, 14 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Y Celfyddydau.' Sgwrs gan Elen ap Robert (Galeri Caernarfon), yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Iau, 16 Chwefror**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwesteiwraig: Kathy Gittins. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (Tel. 029-2069-4667).

**Gwener, 17 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Bydoedd Ned Thomas.' Awdur Llyfr y Flwyddyn 2011 yn trafod ei gyfrol arobryn yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 17 Chwefror**
Clwb y Diwc yn cyflwyno 'Dal Dy Dafod' yng nghwmni Twm Morys, Mei Mac, Myrddin ap Dafydd, Ifor ap Glyn a Geraint Løvgreen, yn nhafarn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm. Tocynnau yn £6 o siop Caban. Daw'r daith yn ystod wythnos 50 mlwyddiant darlith Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith'.

**Sadwrn, 18 Chwefror**
Cwrs Hanes gyda John Davies: 'Y gydwybod gymdeithasol yng Nghymru rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail', yng Nghanolfan Chapter, Treganna, rhwng 1.30pm a 4.00pm. Pris: £8.00 (yn cynnwys lluniaeth ysgafn). Rhaid cofrestru o flaen llaw. Gellwch wneud hynny ar mentercaerdydd.org, neu cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org; 029-2068-9888.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Ann Saer ar y testun 'Oriel Newydd yr Amgueddfa Genedlaethol', yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Sut mae anifeiliaid yn symud?' Darlith gan Dr Iwan Griffiths (Prifysgol Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 22 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Datganiad cerddorol gan Huw Euron (enillydd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy 2010), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 23 Chwefror**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (1), yng ngofal aelod o Eglwys Minny Street. Yng nghapel Minny Street am 7.30pm.

**Mawrth, 28 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu Gŵyl Ddewi. Oedfa arbennig dan ofal y Parch. Owain Llŷr Evans, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Gwener, 2 Mawrth**
Noson Gŵyl Ddewi Clwb Gwawr Llygaid y Dydd am 8.00pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Gwener, 2 Mawrth**
Cyngerdd Gŵyl Ddewi yng nghwmni 'The Dinas Powys Ecumenical Seven' yn Neuadd y Plwyf, Dinas Powys am 7.30pm. Tocynnau: £10 (yn cynnwys lluniaeth) ar gael yn Neuadd y Plwyf a Swyddfeydd Post y pentref neu oddi wrth Mr Arwel Peleg Williams (Ffôn: 029-2051-2985). Er budd Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012.

**Sadwrn, 3 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd (4ydd Llawr, Ystafell 4), rhwng 9.45am a 1.30pm. Siaradwyr: John Davies ('Pwy oedd piau maes glo'r De?'), Chris Evans ('Slave Wales' – traddodir yn Saesneg) a Keith Bush ('Tranc Llys y Sesiwn Fawr 1830'). Manylion pellach: Alan Jobbins (029-2062-3275; asjobbins@btinternet.com).

**Llun, 5 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr gwadd: Huw Jenkins. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 7 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Gŵr gwadd: Y Prifardd Aled Gwyn.

**Mercher, 7 Mawrth**
Merched y Wawr Bro Radur. Allan James yn sgwrsio am 'Atgofion o'r Hen Blwyf', yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 8 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (2), yng ngofal aelod o Eglwys y Crwys. Yng Nghapel y Crwys, Richmond Road, am 7.30pm.

**Sadwrn, 10 Mawrth**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dewi George ar y gerdd 'Rhydcymerau' (Gwenallt) am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 11 Mawrth**
'Cadwyn o Gariad'. Oedfa Sul Cymuned Corrymeela am 10.30am yn y Tabernacl, Yr Ais, dan ofal Dr Robin Gwyndaf.

**Llun, 12 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Rhys Iorwerth, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011, yn trafod ei gerdd arobryn, 'Clawdd Terfyn', yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Wrth fy ngwaith' – gyda Bethan Jones a Zac Davies, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Mawrth**
Clwb y Diwc yn cyflwyno Gig y Chwe Gwlad gyda Dafydd Iwan, yn nhafarn y Duke of Clarence, Treganna am 8.00pm. Noson cyn y gêm rygbi yn erbyn Ffrainc. Tocynnau yn £10 o siop Caban.

**Llun, 19 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Sasha Wyn Davies (Cyngor Sir Fôn) ar y testun 'Ynys Ynni Môn'. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 21 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Dychwelyd i Algeria.' Sgwrs gan Elwyn Moseley, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Ym mis Tachwedd cynhaliodd Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys ei Noson Elusennol flynyddol i godi arian at achos da yn ein hardal. Tŷ Hafan oedd dewis ein Cadeirydd, Betsan Evans, eleni a pha well elusen na'r cartre ger y môr sy'n rhoi cefnogaeth a gofal a chariad a sawl cwtsh i'r teuluoedd hynny sy'n wynebu eu horiau duaf wrth iddynt ddygymod â'r ffaith fod eu plant yn sâl iawn.

Roedd Neuadd y Pentre dan ei sang a'r awyrgylch yn gynnes a chyfeillgar. Cafwyd cwmni'r "Plough Singers" o dan arweiniad David Stickler. Dewiswyd croes-doriad o ganeuon hyfryd ac aelodau'r côr yn amlwg yr un mor gyfforddus yn canu caneuon Elvis ag oedden nhw yn canu Myfanwy a Gwahoddiad. Diolch iddyn nhw am eu haelioni a'u cyfraniad parod a gwerthfawr. *(Parhad ar dud.17)*

# Codi'r to i Tŷ Hafan

Nos Wener 20 Ionawr roedd y 'Stiwt' yn Llandaf o dan ei sang er mwyn dwyn i gof rai o hen draddodiadau'r Cymry mewn perfformiad o Draddodiadau'r Tymor gan Gwmni Dawns Werin Caerdydd. Oedd, roedd yna ychydig o ddawnsio ond prif ddiben y noson oedd arddangos rhai o ddefodau a thraddodiadau tymor y 'Gwyliau' sef y cyfnod o'r Nadolig hyd Nos Ystwyll.

Cafwyd tipyn o hwyl ar y pwnco rhwng criw'r Fari Lwyd a'r gynulleidfa yn y Stiwt ond llwyddodd y Fari i gael mynediad yn y pen draw. Wedyn cafwyd datganiad o ganu Plygain gan grŵp o ddynion, cyn troi at ddefod Hela'r Dryw gyda'r dynion yn cario'r elor o gwmpas y neuadd ac yn llafar ganu.

Ond wedyn daeth perfformwyr y 'Mummers' sef drama werin a gasglwyd yn Llanilltud Fawr, i'r adwy gan godi calon pawb a chodi'r to gyda llond neuadd o chwerthin. Tynnwyd sylw at y Calennig a oedd yn addurno'r fordydd a soniwyd am yr arfer o ganu o dŷ i dŷ dros adeg y Calan.

Cafwyd noson i'w chofio a thrwy gynnal gemau a raffl fawreddog llwyddwyd i godi swm o dros £1,000 ar gyfer Tŷ Hafan i ddiolch am y gofal a gafodd Noah, mab i Hywel a Colleen, aelodau o'r Cwmni.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r noson ac am gyfrannu mor hael.



*Aelodau o Gwmni Dawns Werin Caerdydd yn perfformio'r ddefod o Hela'r Dryw*

# Dawnswyr Twrch Trwyth

## Gŵyl Hen Galan

Ar nos Wener 13 Ionawr cynhaliwyd Gŵyl Hen Galan lwyddiannus arall gan ddawnswyr Twrch Trwyth. Eleni penderfynwyd crwydro Pontcanna a Threganna gyda Mari Lwyd, gan godi braw ar ambell gymydog a char a basiai heibio wrth weld golygfa mor frawychus â phenglog ceffyl yn cerdded y strydoedd! Penderfynwyd codi arian eleni at elusen Tŷ Hafan.



*Dewi Rhisiart yn arwain y Fari Lwyd – a rhai o'r gynulleidfa mewn syndod!*

Dechreuwyd yn nhafarn y Cayo a chafwyd agoriad gwych i'r noson gan ein band yn chwarae alawon gwerin traddodiadol Cymreig. Ymddangosodd Mari ei hun wedyn wedi ei harwain gan Dewi Rhisiart ac aelodau eraill y tîm i ymateb gwych y dorf tu fewn a atebai ar gân i alwad y Fari am hawl i fynediad. Roedd gan rai trigolion ddiddordeb mawr mewn tynnu lluniau a chymryd rhan yn y canu. Doedden nhw'n amlwg ddim erioed wedi profi'r fath beth o'r blaen!

Ymlaen wedyn i dafarn y Robin Hood oedd yn ddewis poblogaidd yn dilyn y brwdfrydedd a'r llwyddiant yno llynedd. Cafwyd yr un croeso twymgalon i'r Fari a'r dawnswyr yno eleni eto, gyda phobl yn mwynhau'r canu a'r awyrgylch draddodiadol.

Diweddwyd y noson yn ystafell gefn y Duke a braf oedd cyrraedd yno i geisio mynediad a gweld llond ystafell o bobl wedi troi allan i ddathlu'r hen galan gyda ni. Wedi dyfodiad Mari, unwaith eto cafwyd llond gwlad o ganu hen ganeuon Cymreig i groesawu dyfodiad y flwyddyn newydd mewn steil!

Diolch o galon i bawb am eu haelioni; llwyddwyd i godi swm sylweddol tuag at elusen Tŷ Hafan. Diolch hefyd i Meurig a'r band niferus am eu gwaith diflino trwy gydol y noson. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at Ŵyl Hen Galan y flwyddyn nesaf yn barod!

***Alwen M Bowen***

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys *(Parhad)*

Ar ddiwedd y noson cafwyd canu cynulleidfaol o'r hen ffefrynnau, eto o dan arweiniad David Stickler, gyda Mags Harries wrth y piano. Dyna i chi ganu – pedwar llais yn codi'r to. Calon Lân a Rachie yn llanw'r neuadd, a phan ddaeth hi at Hen Wlad fy Nhadau roedd pawb ar eu traed yn flinedig a bodlon.

Ar ddiwedd ein gwasanaeth Nadolig ar yr 19eg o Ragfyr yn Eglwys San Pedr, Dinas Powys daeth y pwyllgor at ei gilydd, a gyda'r pleser mwyaf cyflwynwyd siec o £1,720 i ddwylo Eleri Daniel, aelod o staff Tŷ Hafan a merch dau o'n haelodau ni yn y Gymdeithas. Diolchodd ein Cadeirydd Betsan Evans i bawb am eu cefnogaeth hael.



*Eleri Daniel, ar ran Tŷ Hafan, yn derbyn siec o ddwylo Moyra Owen, Trysorydd, a Betsan Evans, Cadeirydd*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Bu'r ddau gyfarfod diwethaf yn bur anarferol yn ein hanes o ran eu trefniant. Gyda dau siaradwr profiadol ac arbenigol roeddem yn siwr o gael ein boddhau. Felly y bu.

Euryn Ogwen oedd yn annerch ar y 5ed o Ragfyr. Aeth â ni ar hyd y datblygiadau tra sydyn a thu-hwnt-i-ddychymyg ym myd cyfathrebu a darlledu dros yr ugain mlynedd diwethaf. Gyda ninnau yn dal mewn rhyfeddod dyma Euryn yn ein taro i'r dyfodol agos a phell, gan beri mwy o syndod. Gyda phopeth yn iawn ac arferol, daeth cyfnod cwestiynau, ond cyn i neb dynnu gwynt dyma'r larwm tân yn canu a phawb yn ffoi i'r maes parcio a mynd adref. Anarferol!

Newid lleoliad oedd yr elfen anarferol yn yr ail gyfarfod ar nos Lun, Ionawr 16eg. Roeddem ym moethusrwydd cartref swyddogol Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd i wrando ar ddarlith ganddo ar y testun, 'Marwolaeth Celloedd Cancr'. Dyma'r tro cyntaf yn hanes ein cymdeithas i unrhyw Arglwydd Faer ein hannerch, a hynny yn Gymraeg. Wrth gwrs, roedd pawb ohonom yn gyfforddus yn ei gwmni, yr hen gyfaill Yr Athro Ifor Delme Bowen.

Disgrifiwyd pwysigrwydd y broses *apoptosis*, sef marwolaeth celloedd dan gynllun, a sut mae hyn mewn cydbwysedd gyda'r broses *mitosis*, sef ymraniad celloedd. Byddai un heb y llall yn peryglu iechyd y corff. Mae cancr yn ymyrryd â'r broses o farwolaeth naturiol celloedd. Cafwyd golwg ar sut mae ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, lle bu Delme yn flaenllaw dros lawer o amser, yn ceisio datblygu deunyddiau, weithiau gan ddefnyddio planhigion, e.e myrrh o Somalia, i ddiogelu'r cydbwysedd angenrheidiol.

Cawsom amser wrth ein bodd. Diolch yn fawr i'r Arglwydd Faer. Pleser digymysg oedd cyflwyno oddeutu £300 at ei elusen ddewisedig, Ymchwil Cancr Cymru.

Dyma grynhoad Alun Ogwen.

Tasa' dim ond *mitosis*, ehangem
Mewn ing hyd at greisis.
Yn ddi-os, *apoptosis*,
Y pŵer hen, sydd heb bris.



*Aelodau o Gymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd gyda'r Arglwydd Faer, Dr Delme Bowen, ac yntau'n derbyn siec tuag at ei ddewis elusen, Ymchwil Cancr Cymru*

# *DIOLCH O GALON*

Pan ddaeth neges bod Anne Innes yn trefnu cyngerdd arbennig – ie, un arall – i godi arian i Sefydliad y Galon, Cangen Caerdydd, fe gethon ni sgwrs.

C. Gellid dweud, bron, bod yr enwau Anne Innes a Sefydliad y Galon yn ddwy ochr i'r un geiniog. Dwedwch ychydig bach am y cefndir.

A. Rwy wedi bod yn gweithio'n wirfoddol gyda Changen Caerdydd o Sefydliad y Galon ers 1982. Dyna pryd y cafodd fy mhriod, Ken, drawsblaniad calon yn Ysbyty Harefield. Yn anffodus, buodd e farw yn 1993 ond mae gweithio i'r elusen wedi bod yn orchwyl fendithiol iawn i fi. Gyda help nifer fawr o bobol, rwy wedi codi dros £100,000 erbyn hyn, ac on i am drefnu'r cyngerdd arbennig yma i ddweud "Diolch yn fawr am y gefnogaeth". Bydd yr arian a godir yn y gyngerdd yn mynd at apêl Mending Broken Hearts.

C. Wy'n deall y bydd gyda chi ymwelydd arbennig.

A. Bydd wir – rhywun sy ar fin torri record y byd! Cafodd John McCafferty o Newport Pagnell drawsblaniad calon yn Harefield yn 1982, yr un flwyddyn â Ken, a fe yw'r person sy wedi byw hiraf ym Mhrydain. Erbyn 2013, fe fydd â record y byd.

C. A phwy fydd y sêr ar y llwyfan?

A. Yn cymryd rhan yn y gyngerdd bydd Côr Merched Canna, dan arweiniad Delyth Medi, Gareth Rhys Davies a rhai o'i ffrindiau o'r WNO, a'r ddau frawd ifanc talentog Harry a Charlie Lovell-Jones – a fu'n serennu, wrth gwrs, yn Neuadd Albert yn ddiweddar. Ynghyd ag offerynnau eraill, maen nhw am chwarae deuawdau ar y piano i ninnau hefyd.

Gyda llaw, yn y cyngerdd bydd llyfryn ar gael yn sôn am y Zebrafish – y pysgodyn bach sy'n gallu atgyweirio'i galon ei hunan. Mae'r gwyddonwyr yn ffyddiog y gallan nhw ddadansoddi cyfrinach y Zebrafish, gan roi gobaith newydd i filiynau o ddioddefwyr.

Cyngerdd Diolch: Nos Sadwrn, 28 Ebrill, yn Theatr Ddarlithio 1, Ysbyty Athrofaol Cymru, Y Mynydd Bychan. Tocynnau ar gael gan Anne – 20 616230.



*Anne (yn y canol) gyda rhai o aelodau'r pwyllgor sy'n helpu i drefnu'r cyngerdd*

# Cymmrodorion Caerdydd

Mae pawb a fu'n gwrando ar y *Shipping Forecast* yn gyfarwydd ag enwau hynod fel, Malin, Faeroes, Utsire ac eraill. Bu'r enwau hyn yn gyfrwng i ysgogi awen y bardd ifanc, Llŷr Gwyn Lewis, a enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2010 am ei gerdd Tonnau. Ef oedd gŵr gwadd Cymmrodorion Caerdydd yn eu cyfarfod olaf am 2011 ar 2 Rhagfyr, a bu'n trafod y gerdd hon a'r gerdd a enillodd iddo gadair yr Urdd yn 2011, sef Fflam.

Yn ystod ei gyflwyniad soniodd Llŷr am y dylanwadau a fu arno fel disgybl ysgol a myfyriwr. Mae'n frodor o Wynedd, ond bellach yn fyfyriwr ymchwil yma ym Mhrifysgol Caerdydd. Ysgogodd ymgorfforiad Llŷr o'r enwau morwrol a ddefnyddir yn y *Shipping Forecast* yn ei gerdd Tonnau, drafodaeth fywiog ar y cwestiwn ai geiriau neu syniadau a ddaw yn gyntaf i feddwl bardd wrth i gerdd ymffurfio yn ei feddwl.

Diolchwyd i'r siaradwr am ei gyflwyniad difyr gan Hefin Jones, a dymunodd yn dda iddo yn ei yrfa fel bardd ac ysgolhaig.


# Cymdeithas Carnhuanawc

Eleni eto bydd Cymdeithas Carnhuanawc yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys gwibdeithiau, taith gerdded, darlithoedd, a chinio blynyddol.

Bore Sadwrn, Mawrth 3ydd, rhwng 9.45 a.m. a 1.30 p.m., cynhelir YSGOL FORE yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd (Llawr 4) pryd y ceir anerchiadau gan y Dr John Davies – 'Pwy a oedd piau maes glo'r De'; Yr Athro Dr Chris Evans ar 'Slave Wales' (yn Saesneg) a chan Gadeirydd Cymdeithas Carnhuanawc, Keith Bush ar 'Tranc Llys y Sesiwn Fawr 1830'.

Edrychir ymlaen at eich croesawu i'r bore arbennig hwn ac i gymdeithasu dros baned a sgwrs.

Am fwy o fanylion gweler www.carnhuanawc.org



*Dr John Davies gyda'r cerflun o Carnhuanawc y tu fas i Lyfrgell y Ddinas*

# GWEFAN GYMRAEG NEWYDD

O ganlyniad i ennill cystadleuaeth entrepreneuriaeth Gorsedd y Dreigiau yn Eisteddfod Genedlaethol 2010, aeth dau bartner busnes ifanc ati i sefydlu busnes gwyliau ar-lein – y cyntaf o'i fath yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth a gwefan drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sefydlu'r wefan 'Y Gorau o Gymru' (www.ygorauogymru.co.uk), gan Llion Pughe a Gareth Mahoney, felly, yn ddatblygiad busnes arwyddocaol.

Mae Llion yn rhedeg yr asiantaeth o Gemaes, ger Machynlleth, ac mae swyddfa Gareth yng Nghaerdydd. Meddai Gareth: "Mae 22% o'n harchebion yn dod gan bobl sydd yn byw yng Nghymru ac mae 1 o bob 5 o drigolion Cymru'n siarad Cymraeg. Felly mae 'na fwlch yn y farchnad ac rydyn ni'n hyderus y gallwn ei lenwi."

Maent hefyd wedi ymestyn gwasanaeth y wefan fel ei bod yn bosib i ddysgwyr archebu gwersi Cymraeg fel rhan o'r profiad gwyliau unigryw. A gallwch chwilio am fythynnod â pherchnogion sy'n siarad Cymraeg trwy glicio ar 'perchnogion yn siarad Cymraeg' o dan 'Mwy o Opsiynau Chwilio'.

I ddathlu'r garreg filltir hon, mae Y Gorau o Gymru yn cynnig gostyngiad o 5% i unrhyw un sy'n archebu gwyliau cyn y 29ain o Chwefror 2012. A'r côd (i'w ddyfynnu wrth archebu dros y ffôn neu ar-lein) yw **'Gwyliau2012'**.

**Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01650 511 101 neu e-bostiwch info@bestofwales.co.uk**

Gwefan Gymraeg i Fythynnod

Gwyliau Gorau Cymru

*130+ o fythynnod 4* a 5* ar hyd a lled Cymru*

*Gallwch chwilio ac archebu eich gwyliau ar*

**www.ygorauogymru.co.uk**

*neu gysylltu â thîm cyfeillgar Y Gorau o Gymru ar 01650 511 101*

# SAMARIAID

Profodd sylfaenydd y Samariaid, Y Parchg Dr. Chad Varah, bod rhoi cyfle i bobl siarad am eu gwewyr meddwl, eu tristwch neu eu hanobaith, yn gyfrwng iddynt ysgafnhau'r baich hwnnw. Dyma'r hyn a arweiniodd at sefydlu gwasanaeth y Samariaid yn 1953. O fewn deng mlynedd roedd nifer y rhai oedd yn gwneud amdanynt eu hunain wedi lleihau o draean.

Mae'n wasanaeth sy'n rhoi cefnogaeth emosiynol gyfrinachol, ac mae'r gwasanaeth ar gael ddydd a nos bob dydd o'r wythnos, boed yn sgwrs ffôn, e-bost, llythyr, neges destun neu gyfarfod wyneb yn wyneb.

Dyma sut y mae'r bardd, Eifion Lloyd Jones, yn disgrifio'r Samariaid.

Y cwmni yn yr unigrwydd
Y cyfaill tu ôl i'r llen
Y deall a'r cydymdeimlad
Y llais pan fo'r byd ar ben.

Y gwrando, nid y pregethu
Y glust, ddim y tafod rhydd
Y disgwyl yn amyneddgar
Y cysur ar derfyn dydd.

[Mae'r adroddiad llawn a dderbyniwyd yn cynnwys gair o brofiad gan rai a gafodd gymorth y Samariaid i ymdopi â bwlio yn yr ysgol uwchradd, anhwylder deubegynol, ac iselder ysbryd. Gellir cael copi llawn o gysylltu â'r Samariaid. Gweler yr hysbyseb.]

*Angen siarad yn gyfrinachol?*

**SAMARIAID**

LLINELL GYMRAEG

**0300 123 3011**

# Helpu'r Dinesydd

Diolchwn i Cynthia Evans, Rhiwbeina, am ei gwasanaeth fel Trysorydd y Dinesydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Tybed a fyddech chi, un o ddarllenwyr y Dinesydd, neu rywun ych chi'n nabod, yn fodlon ystyried ein helpu gyda'r gwaith hwn? Gan fod swyddogion eraill yn gyfrifol am 'dalu i mewn', y brif swyddogaeth fyddai gwirio datganiadau'r banc yn ystod y flwyddyn a llunio 'datganiad' ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol.

Hefyd, mae angen golygydd ar gyfer un o rifynnau'r haf. Os gwyddoch chi am rywun fyddai â diddordeb, byddem yn falch o glywed wrthoch chi.

Manylion cysylltu:

**Gwilym Roberts** (Cadeirydd), ffôn – 02920 693254

**Bryan James** (Is-gadeirydd), ffôn – 02920 566731, e-bost db.james@ntlworld.com

# GOFAL IECHYD CHINEAIDD YM MLWYDDYN Y DDRAIG?



Ers troad y Flwyddyn Newydd Chineaidd hon, sef Blwyddyn y Ddraig, ar 23 Ionawr, mae aciwbigwyr wedi gweld mwy a mwy o bobl yn troi at y driniaeth draddodiadol fel ffordd o gadw'n iach. Meddai Gwenan Evans, sy'n rhedeg clinigau ym Mhenarth a'r Mwmbwls, "Mae'r wythnos neu ddwy ddiwethaf wedi bod yn hynod brysur, gyda llawer o gleientiaid newydd yn cysylltu i holi beth all aciwbigo gynnig iddyn nhw. Dwn i ddim a yw'r ffaith fod eleni'n Flwyddyn y Ddraig wedi taro tant arbennig yma yng Nghymru, ond yn sicr, mae'r ffôn wedi bod brysurach nag erioed!"

Mae'n siwr fod y ffaith fod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi cymeradwyo aciwbigo ar gyfer rhai cyflyrau cyffredin fel poen cefn yn ddiweddar wedi ychwanegu at ei apêl, ac fe fu cyhoeddusrwydd diweddar hefyd i lwyddiant aciwbigo traddodiadol i helpu pobl sydd â phroblemau cwsg – sy'n gallu effeithio ar hyd at draean o oedolion yn y DU yn ôl ystadegau ymchwil diweddar. Mae aciwbigo'n gallu bod o help arbennig i bobl yn ystod cyfnodau o newid neu densiwn yn eu bywydyau. Mae'n driniaeth holistaidd ac addfwyn, yn addas i bob oedran , yn cynnwys plant ifanc a'r henoed.

Fel rhwyun sy'n gwbl ddwyieithog, mae Gwenan yn gwybod yn iawn gymaint haws yw hi'n gallu bod i dderbyn gofal iechyd yn eich mamiaith. "Mae sefydlu perthynas gysurus rhwng y darparwr a'r cleient yn holl-bwysig – yn fwy felly, o bosib, gyda thriniaethau amgen," meddai, "ac mae dewis iaith yn rhan sylfaenol iawn o sefydlu perthynas."

[Am wybodaeth bellach cysylltwch â Gwenan Evans ar 07816 878117 neu acupuncture@gwenanevans.com]

# PRIFARDD YR EISTEDDFODAU CADEIRIOL

Llongyfarchiadau i Hannah Roberts ar ei llwyddiant ddiwedd y flwyddyn y llynedd yn cipio rhai o brif wobrwyon yr Eisteddfodau Cadeiriol sy'n dal i gael eu cynnal yn ardaloedd gwledig y gorllewin.

I ddechrau, enillodd y Tlws Llenyddiaeth a'r Gadair yn Eisteddfod Bancffosfelen ym mis Hydref, gyda Tudur Hallam yn beirniadu, ac yna, ym mis Tachwedd, dyfarnodd Mererid Hopwood iddi yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Llandyfaelog. I 'goroni' y flwyddyn, fel petai, cipiodd y Gadair yn Eisteddfod Abergorlech, eto ym mis Tachwedd, gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad, John Gwilym Jones.

Brodor o Dreboeth ger Abertawe yw Hannah yn wreiddiol, ond ymgartrefodd yn Llandaf ers blynyddoedd bellach. Bu'n dysgu yn y Barri am 13 o flynyddoedd cyn ymuno â Chwmni Theatr Cymru, a wedyn ag adran gyflwyno y BBC.

(Falle i chi ei gweld ar Bobol y Cwm a Con Passionate.)



*Y Prifardd Tudur Hallam yn cyflwyno'r Gadair i Hannah yn Eisteddfod Bancffosfelen*


## *Angen trwsio neu newid eich cyfrifiadur?*

* Systemau newydd i'r cartref neu fusnes
* Adnewyddu a thrwsio
* 20 mlynedd o brofiad
* Gwasanaeth cartref ar gael

**106 Heol Y Crwys, Caerdydd CF24 4NQ**
**029 2023 1445 wyn@dinascomputers.co.uk**

DINAS MICROLINK TECHNOLOGY CENTRE